

ECO'R WYDDFA

RHIF 363 CHWEFROR 2009

PRIS 40c

Yn y rhifyn hwn:

- Llwyddiannau Penisarwaun
- Band Cymraeg Gorau'r flwyddyn

BUSNES TRIN GWALLT YN EHANGU

Er gwaethaf yr hinsawdd economaidd bregus, mae busnes teuluol o Lanrug yn ehangu. Ar ddydd Llun, Chwefror 9fed, bydd Siop Elaine's yn agor ar ei newydd wedd. Dyma gyflogwraig fwyaf Llanrug, bellach, gydag 14 o staff (saith ohonynt yn llawn amser), a thair arall yn eu siop ym Mhenygroes. Mae'r busnes trin gwallt yn ymestyn yn ôl i'r cyfnod cyn yr Ail Ryfel Byd, pan ddechreuodd y diweddar Alwyn Williams fel barbwr yn Llanrug. Yn dilyn cyfnod gyda'r lluoedd arfog, dychwelodd i Lanrug a pharhau â'r busnes ym mharlwr ffrynt Llys Llywelyn. Yna symudodd am gyfnod i Ddeiniolen cyn dychwelyd i Lanrug yn 1966. Yn ddiweddarach, ymunodd ei ferch hynaf, Pat, â'r busnes, cyn iddi hithau symud i ffwrdd i agor ei busnes ei hun. Ymunodd Elaine â'i thad yn 1976, a hi bellach sy'n gyfrifol am y busnes. Bu wyres arall i Alwyn Williams, Wendy, yn gweithio yn y siop am ugain mlynedd cyn iddi hithau hefyd ddilyn gyrfa arall yn yr un maes. Bellach, mae merch Elaine, Gemma, yn rhan o'r busnes, a hi fydd yn gyfrifol am yr agwedd newydd o'r gwaith.

Dros y misoedd diwethaf, bu newidiadau sylweddol i'r siop trin gwallt, gan ychwanegu estyniad yn y cefn ac ystafelloedd newydd ar y llawr uchaf. Bydd hefyd lefydd ychwanegol i barcio yn y cefn. Mae'r holl newidiadau yn golygu fod gallu'r siop i drin mwy o gwsmeriaid wedi ehangu o saith i ddeg lle trin gwallt. Mae'r llawr uchaf wedi ei rannu'n dri: parlwr prydferthwch, ystafell ymlacio a lle i drin ewinedd. Bydd Gemma yn gyfrifol am y gwaith yn y rhan newydd hon, ac yn cynnig hefyd massage pen, cwyo a detox. Ac i'r rhai sy'n cael trafferthion i ddringo grisau, bydd lle ar gael i fwynhau'r triniaethau newydd ar yr un llawr â'r siop trin gwallt.



croeso i unrhyw un ymweld â'r siop, a chynhelir sesiynau rhwng 11.00 y bore ac 1.00 y pñawn, rhwng 2.00 a 5.00 y pñawn ac wedyn rhwng 6.00 ac 8.00 y nos. Yn ystod y sesiynau hyn, bydd cynrychiolwyr o wahanol gwmnïau, megis Wella, Jessica a Payot, yn bresennol i ateb unrhyw ymholiadau. Bydd lluniaeth ysgafn hefyd ar gael.

Dros y blynyddoedd mae'r busnes wedi denu cwsmeriaid lu o bob cwr o fro'r "Eco" a thu hwnt. Mae rhai o'r ffyddloniaid yn teithio o Bwllheli, Porthmadog ac Amlwch, a daw un wraig o Gaergybi ar y trêni i Fangor cyn dal bws i Lanrug i drin ei gwallt! Daw un cwsmer hefyd o Gaer, ac y mae nifer o ferched o'r ardal sydd bellach yn gweithio yn Llundain, yn gwneud yn siwr fod lle ar gael iddynt bob tro y dychwelant ar wyliau!

Mae'r siop ar agor o naw y bore hyd wyth y nos ar ddyddiau Mercher, Iau a Gwener, ac o wyth y bore tan bump ar ddydd Sadwrn. Ar ddydd Mawrth, y dynion sy'n cael gofal hyd hanner awr wedi saith yr hwyr. Efallai y bydd angen ymestyn yr oriau rheini pan ddaw y dynion i wybod beth sydd ar gael yn yr adran harddwch!

Braf yw cael adrodd am lwyddiant busnes lleol, a dymunwn yn dda i Elaine, Gemma, a gweddill y staff i'r dyfodol.

MBE I DEE!



Dee Edwards MBE, Ellie ei merch ar ei glin, Harry'r mab a Jessica (ffrind).

Llongyfarchiadau i Dee Edwards o 'Wrth y Becws', Cwm y Glo am gael MBE yn rhestr anrhydeddau'r flwyddyn newydd am ei gwaith diflino fel ymgyrchydd yn erbyn trais. Sylfaenodd y gymdeithas MAMAA (Mothers Against Murder And Aggression) ar ôl llofruddiaeth erchyll James Bulger yn 1993.

Mae'r gymdeithas bellach wedi tyfu ac yn cefnogi dros 600 o deuluoedd sydd wedi colli rhywun annwyl drwy drais. Maent bellach yn cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar y pwnc.

Mae MAMAA hefyd yn gwned gwaith yn yr ysgolion i

godi ymwybyddiaeth ieuencid o beryglon a chanlyniadau difrifol cario a defnyddio arfau treisgar. Bu'r aelodau yn cynnal cyfarfodydd aml yn Ysgol Brynrefail.

Ddiwedd y flwyddyn hon bydd MAMAA Cymru yn cael ei lansio yn y Cynulliad yng Nghaerdydd ynghyd â sawl mudiad arall tebyg.

Hoffai Dee ddiolch i bobl Cwm am eu holl gymorth, yn enwedig am warchod y plant, yn aml ar fyr rybudd, tra roedd hi'n mynychu cyfarfodydd.

Yn olaf, llongyfarchiadau i Dee ar ddod yn nain i Harmony Rose, merch i'w mab arall, Steve. Pa well dechrau i flwyddyn vnte?

ECO'R WYDDFA

RHIF 363
RHAGFYR 2008
Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911
*Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.*

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth**
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA
Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifion@eifionroberts9.wanadoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS SUL Chwefror 15fed
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU Chwefror 26ain
Dyddiad Gosod
SUL Chwefror 22, 5 y pnawn
Sefydliad Coffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Mawrth	Chwefror 16 fan bellaf	26 Chwefror	Sefydliad Coffa Llanrug	Goronwy Hughes	674839

Llythyrau

BLAEN-Y-DDÔL BRIGADE LLANBERIS

9 Victoria Park
Bangor

Annwyl Olygydd,
Gwelaf eich bod yn dathlu 70
mlynedd ym mywyd Ysgol
Dolbadarn, sef 1938-2008.

Tybed ai fi yw'r unig un sy'n
gallu cofio eu dyddiau ysgol cyn
hynny? Cefais fy mhen-blwydd
yn bump oed yn 1921. Wedi
marwolaeth fy mam ym Mangor
daeth y tri ohonom i dŷ fy
ewythr i 4 York Terrace, ac yno
y buom yn cael ein magu.

Rwy'n cofio bod yn nosbarth
y babanod yn gwneud mat
raffia! Tybed ai 1922 oedd
hynny? Wedyn i Standard 1, ac
yna i Standard 3 (pasio
Standard 2) lle roedd Miss
Hughes yn dysgu speli, a dysgu
sut oedd nwy yn cael ei wneud,
trwy roi pibell yn llawn llwch
glo yn y tân glo a gwylio'r fflam
las yn goleuo!

1925-6 i ddosbarth 4 ac o
fanno ennill ysgoloriaeth (y
scholarship, fel 11+) i Ysgol
Brynrefail.

Rwy'n cofio'r prifathro,
Jaleeg Jones, yn ein galw ni yn
'The Blaen y Ddôl Brigade' pan
ddeuem i mewn yn hwyr, ac yn
cael cansen ar ein dwylo yn
ymyl ei ddesg fawr.

Dyna ddigon am y tro. Mae
pethau wedi newid cryn dipyn
yn yr ysgol ers hynny mae'n
debyg.

Hwyl i bawb sy'n dathlu a
chofion cynnes i unrhyw un
sydd, fel fi, yn cofio 'y pethau
anghofiedig' cyn hynny.

OLWEN M. DAVIES

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Mae'r Cyngor eto eleni yn
estyn gwahoddiad i
fudiadau gwirfoddol lleol
wneud cais am gymorth
ariannol o Gronfa
Cymorthdaliadau Bychan
y Cyngor. Cyfyngir y
ceisiadau i fudiadau lleol
neu fudiadau sy'n
gweithredu'n lleol.

Dylid anfon y cais yn
ogystal â mantolen
ariannol am y flwyddyn
ariannol ddiwethaf at y
Clerc cyn y
13eg o Chwefror, 2009.
Anfonwch at:
Clerc Cyngor Cymuned
Llanberis, Ty'n Twll,
Nantperis, Caernarfon
LL55 4UL.

GWYBODAETH OS GWELWCH YN DDA

Buaswn yn ddiolchgar o gael
cysylltiad ag unrhyw un sydd yn
cofio John a Frances Goff Owen
o Lanberis. Roedd John Goff
Owen yn glerc yn swyddfa
Chwarael Dinorwig a bu farw
tua 1955.

ALISTER WILLIAMS

E-bost
w.alisterwilliams@yahoo.com
Ffôn: 01978-358661
61 Park Avenue, Wrexham,
LL12 7AW

COFNODION CARTREF BONTNEWYDD

Cartref Bontnewydd
Canolfan Cefnogi Teulu
Y Bontnewydd

Annwyl Olygydd
Ysgrifennaf ar ran bwrdd
Ymddiriedolaeth Cartref
Bontnewydd i hysbysu bod
cofnodion a hanes Cartref
Bontnewydd ers 1898 yn awr yn
yr Archifdy yng Nghaernarfon
er mwyn sicrhau eu diogelwch a
rhoi cyfle i'r cyhoedd gael eu
gweld.

Yn gywir,
JEAN EVANS
Ysgrifennydd yr
Ymddiriedolaeth

Unwaith eto yr ydym yn apelio am rywun i godi'r Eco o'r
safle plygu unwaith y mis a'u cludo i Gwm-y-Glo a
Pheniarwaun.

Theatr Bara Caws

Dal i Bwmpio gan Eilir Jones

Bydd sioe glybiau newydd sbon
gan Eilir Jones - *Dal i Bwmpio* -
yn cychwyn teithio o amgylch y
clybiau nos Fawrth, 2 Chwefror
hyd at nos Sadwrn, 14 Mawrth.

Yr actorion yw: Iwan
Charles, Carys Gwilym,
Gwenno Elis Hodgkins, Eilir
Jones a Dyfed Thomas.
Cyfarwyddir y sioe gan Tony
Llewelyn.

Perchennog modrudy bach
gwledig sy'n diodde'n enbyd yn
y 'credit crunch' yw arwr y sioe
glybiau eleni. Mi fyddai sawl
peth yn cael y 'crunch' tasa ei
wraig o'n cael ei ffordd ei hun,
yn enwedig hefo'r heddlu yn
snwro o gwmpas y lle a dyn y
dreth a'r banciau ar eu gwarthaf.

'Sut mae dyn i fyw mewn oes
mor ddreng?' yw'r cwestiwn
mawr - ond mae o rhy dwp i'w
ofyn. Mae o mewn twll, ond yn

RHODDION

£20: Joan a Siôn Rees
Williams, Y Gors, Llanrug er
cof am John Ellis Williams; Ian
Pierce, Sŵn yr Awel, Llanrug;
Er cof am Dr David John
Humphreys gan ei briod, Mrs
Joan Humphreys; Dilys Mai
Roberts, Yr Haciau,
Penisarwaun.

£10: Teulu Jacqueline Ann
Williams, 1 Post Office Row,
Bethel; Pat Owen, Cefn
Cynrig, Bethel; Bob ac Eileen
Roberts, Northampton; Mrs
Jane Roberts, Glaslyn, Bro
Waun, Waunfawr; Teulu Nant
Forgan, Cwm y Glo; Mrs G.
Kirkpatrick, 21 Hafan Elan,
Llanrug; Mrs Beryl Griffiths, 5
Maes Gwylfa, Deiniolen; John
Hugh Hughes, Tan Y
Dderwen, Llanberis; Vera a
John Hughes, 15 Cae Corn Isaf,
Caernarfon; Teulu Maria
Pritchard.

£6: L.J. ac Enid, Tan-y-Coed.
£5: Ellen, Gwynfor a'r teulu
Drws y Coed, Bethel; R. Elwyn
a Sallie Griffith, Bod Eilian, 35
Stryd Dinorwig, Caernarfon;
Teulu Parc, Waunfawr; Carolyn
ac Alun, 39 Glanffynnon,
Llanrug; Alwyn a Nia Jones, Y
Dderwen, Rhos-bach,
Caeathro; Ms Eileen Jones, 3 Y
Bwthyn, Deiniolen; Ffion a
Keith, Rhiw Goch, Clwt-y-
bont.

union fel y gweddill ohonom,
mae o'n gwrthod stopio palu.
Does ganddo ddim dewis felly
ond troi at yr ochr dywyll - a
difaru!

Casgliad newydd o
sefyllfaoedd gwallgof,
cymeriadau hurt, chwerthin a
chanu yw'r sioe glybiau eto
eleni. Bydd yr awdur, Eilir
Jones, yn arwain criw o
wynebau cyfarwydd mewn clwb
neu dafarn yn eich ardal chi.

Efallai ei bod hi'n dynn
arnoch chi ond does 'na ddim
gwell rheswm i'ch denu oddi
wrth y teli yn nhrymder gaeaf
na'r croeso gewch chi gan Bara
Caws a chriw'r sioe glybiau!!

Bydd y sioe yn ymweld â'r
llefydd canlynol yn ein hardal
ni:

Nos Fawrth - Nos Iau
10, 11 a 12 o Chwefror
Clwb Pêl-droed Caernarfon
(Tocynnau gan Huw):
675607 neu 07818 651752

BLWYDDYN LWYDDIANNUS 'SIBRYDION'

BAND CYMRAEG GORAU'R FLWYDDYN

Bu'r flwyddyn 2008 yn llwyddiannus iawn i'r grŵp Sibrydion ac mae'n argoeli'n dda iddynt eto eleni.

Un o binaclau'r llynedd oedd agor cyngerdd yn yr Espace Marine yn yr Wyl Ryng-Geltaidd yn Lorient, pryd y daeth dros bedair mil i wrando arnynt. Yna dewiswyd hwy, gan wylwyr *Uned 5*, yn Fand Cymraeg Gorau'r Flwyddyn.

Mae Sibrydion yn rhyddhau eu LP Saesneg gyntaf yn ystod y mis hwn sef *Campfire Classics*. Recordiwyd yr albwm yn Stiwdio Nen, ei chymysgu gan Cian Ciaran a bydd yn cael ei rhyddhau ar label Dell'Orso ar Ionawr 26ain. Mae'r albwm yn adlewyrchu diddordeb y band ym mhopeth am y Gorllewin Gwylt; ac mae'n llawn o storïau am fradychu, cariad, anobaith ac atgyfodi.

Tair ar ddeg o ganeuon sydd ar yr albwm ac ysbrydolwyd Meilir i gyfansoddi'r gân 'Rosalynn' ar ôl iddo ddarllen erthygl mewn papur newydd, tra bu yn Buenos



Sibrydion ym mhabell Cymru yn Lorient yn ystod yr Wyl Ryng-Geltaidd

Aires, am ddawnswraig salsa ifanc a gymerodd ei bywyd ei hun. Mae ei henw - Rosalynn - yn cael ei ganu'n bwerus a thrydanol gan gôr o feibion.

Ddiwedd mis Rhagfyr dewiswyd y gân *Femme Mental* oddi ar yr albwm yn sengl yr wythnos ar raglen Radcliffe a

Maconie ar Radio 2 a chwaraewyd y trac bob nos am yr wythnos.

Yna daeth newyddion annisgwyl ddechrau'r mis hwn ei bod wedi ei dewis unwaith eto yn 'sengl yr wythnos' ar raglen foreol Shaun Keaveny ar Radio 6.

Pump o aelodau sydd yn y grŵp, sef Osian a Meilir o

Waunfawr, Rhys o Flaenau Ffestiniog, Dafydd o Fynytho a Dan 'Fflos' o Aberystwyth.

Mae mis prysur o'u blaenau ac yna ar Chwefror 27ain bydd Derwyddon Dr Gonzo a Sibrydion i'w gweld yn yr ICA yn Llundain.

Bob lwc i chi hogia.

CLWTWEITHWYR PERIS YN CODI £1,000

Eleni mae Grŵp Clwtweithwyr Peris, sy'n cyfarfod yn wythnosol yn Nant Peris, wedi cyfrannu £1,109 i gronfa'r Ambiwylans Awyr drwy gynnig raffl o'u gwaith cwiltiau fel gwobrwyon.

Yn y llun gwelir Lyn Garlick, oedd yn tynnu'r Raffl, yn derbyn y siec, ar ran yr Ambiwylans Awyr, gan rai aelodau o'r Grŵp.

Aeth y wobwr gyntaf i Mr Bradley (Maenceinion), yr ail Wobr i Steve Gibbens (Llundain) a'r drydedd gwobr i Christine Owen (Meddygfa Llanberis).

Dymuna'r Clwtweithwyr ddiolch i bawb a gefnogodd eu hymgyrch unwaith eto.



Blodau Racca

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb
oddi wrth

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979

620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser - Aneuryn Jones a'r staff

CHWILOTA

DAU HUW LEWYS YN LLANDDEINIOLEN



Soniais rhyw ddau rifyn yn ôl am ddaliadau tir yn Llanddeiniolen bron i bedwar can mlynedd yn ôl, a chefais alwad ffôn gan Selwyn Griffith yn awgrymu mai Huw Lewys, awdur *Perl Mewn Adfyd* oedd yr Huw Lewis a gofnodwyd yn y lês yn ymwneud â thyddynnod Y Fachell, Coed Bolyn a Thyddyn Llwyn.

Cyhoeddwyd *Perl Mewn Adfyd* gan Wasg Prifysgol Cymru yn 1929, gyda rhagymadrodd cynhwysfawr gan yr Athro W.J.Gruffydd. Mae'r gwaith yn cadw at orgraff yr argraffiad gwreiddiol yn 1595. Cyfieithiad o gyfieithiad yw *Perl mewn Adfyd*. Fe'i cyhoeddwyd gyntaf yn yr Almaeneg, gwaith Otho Werdmuller, gweinidog yn un o eglwysi Zurich, ac fe'i cyhoeddwyd yn 1548. Fe'i cyfieithwyd i'r Saesneg gan Miles Coverdale - *A spiritual and most precious pearl teaching all men to love and embrace the cross...* a'i gyhoeddi yn 1550, ac yna wedyn mewn blynyddoedd diweddarach. Mae'n debyg mai'r trydydd argraffiad (1593) a ddefnyddiodd Huw Lewys ar gyfer ei gyfieithiad i'r Gymraeg.

Ond, ac y mae'n ond go fawr; mae'r ddogfen ynglyn â daliadau tir yn dyddio o tua 1550, ac ni chafodd Huw Lewys, cyfieithydd *Perl Mewn Adfyd* ei eni hyd 1562. Ni allai fod yr un person. Hanai teulu Huw Lewys o Fodellog yn ardal y Bontnewydd. Plas y Bont yw'r enw ar y cartref erbyn heddiw. Ei dad oedd Lewis ap William o Fodellog, a'i fam oedd Agnes, ferch William Foxwist o'r Prysgol ger Caeathro. Fe'i derbyniwyd yn fyfyrwr yn Rhydychen yn 1582.

Mae rhestrau taliadau'r blaenffwrth am Landdeiniolen ar gael am fis Chwefror 1569/70. (Yn y cyfnod hwnnw roedd y flwyddyn yn cychwyn ym mis Ebrill ac yn diweddu ym Mawrth. Felly roedd Chwefror y flwyddyn honno yr unfed mis ar ddeg o'r flwyddyn 1569, ond yr ail fis o 1570 yn ôl y newid diweddarach). Enwir Hugo Lewis, clericus, fel un sy'n talu'r blaenffwrth. Nid Huw Lewys y cyfieithydd mo hwn, oherwydd dim ond naw oed oedd ar y pryd. Roedd yr Hugo Lewis hwn cisocs mewn urddau eglwysig.

Dyma gadarnhau felly fod dau Huw Lewys yn gysylltiedig â Llanddeiniolen yn ystod y cyfnod hwn, a bod y ddau mewn urddau eglwysig, ac wedi treulio peth amser yn dal rheithoriaeth

y plwyf. Roedd Huw (Hugo) Lewis yno yn 1569, ond ni ddaeth Huw Lewys y cyfieithydd i Landdeiniolen hyd 1598, a hynny, mae'n debyg, o Rydychen. Yn Rhydychen y cyfieithwyd y gwaith, ac nid yn Llanddeiniolen, ac yn Rhydychen hefyd yr argraffwyd *Perl Mewn Adfyd*.

Mae'n bosibl felly mai Hugo Lewis oedd y person y cyfeirir ato yn nogfen 1550. Ond darllenwch y rhagymadrodd i *Perl Mewn Adfyd* er mwyn cael y dadansoddiad manwl o resymeg W.J.Gruffydd ynglyn â'r cyfieithydd a'i gysylltiadau â Llanddeiniolen.

Cwyno am Wasanaeth Saesneg ym Metws Garmon

Ar ddechrau'r flwyddyn 1897 bu nifer o blwyfolion Betws Garmon yn cwyno am nad oedd gwasanaeth Cymraeg yn cael ei gynnal yn Eglwys y Plwyf - ac Eglwys y Waunfawr oedd yn cael y bai! Erbyn y flwyddyn hon, roedd plwyf eglwysig Betws Garmon wedi ei uno â'r Waunfawr, a dim ond gwasanaeth Saesneg ar bnawn Sul oedd yn cael ei gynnal yn yr hen eglwys.

Daeth pethau i benllanw ddiwedd Mawrth y flwyddyn honno, a phenderfynodd mwyafrif uniaith Gymraeg y plwyf fynd â'u cwyn at Esgob Bangor. Gwneuthpwyd y cais ar ran y plwyfolion gan y Parch John Parry, clerigwr oedd wedi ymddeol i Blas y Nant. Yr oedd y Parch John Parry yn fodlon cyfrannu £200, boneddwr o'r enw Mr Storey yn addo £100, a gweddill y plwyfolion yn fodlon casglu £200 arall er mwyn cael y swm o £500 i waddoli eglwys Betws Garmon. Ei gwerth ar y pryd oedd £60 y flwyddyn. Fodd bynnag, ni chafwyd ateb gan yr Esgob.

Parti Cân Actol Ysgol Dolbadarn



Diolch i Mrs Peri Evans o Ddeiniolen am roi benthyg y llun hwn o barti cân actol o Lanberis yn ystod y 1930'au.

Yn ôl y Parch John Parry, flynyddoedd ynghynt roedd person Betws Garmon yn byw ym Môn, ac ni fyddai'n ymweld â'i eglwys ond bob rhyw chwech wythnos. Cofiai hefyd am berson arall yn gadael angladd i ddisgwyl yn y fynwent am dros awr oherwydd ei fod yn rhy brysur yn pysgota yn afon Gwyrfa. Dyna pam, yn ei ôl ef, y trodd y werin at Ymneilltuaeth. Ychwnaegodd y byddai Cymru yn wlad baganaidd pe byddid wedi aros gyda'r eglwys wladol. Yr oedd yn benderfynol o gael Betws Garmon yn blwyf ar ei ben ei hun ac adfer gwasanaethau Cymraeg i'r hen eglwys.

Ond yr oedd offeiriad y Waunfawr a Betws Garmon yn wfftio at y syniadaeth hon, ac yn honni fod y plwyfolion eglwysig yn ddigon bodlon ar y trefniadau. Roedd eglwyswyr Cymraeg Betws Garmon yn cael eu gwasanaeth yn y Waunfawr, ac eglwyswyr Saesneg y Waunfawr yn cael eu gwasanaeth hwythau yn y Betws. Dim ond milltir o ffordd oedd rhwng y ddwy eglwys,

meddai, ac felly doedd fawr o drafferth i'r un o'r ddwy garfan gerdded i'r naill neu'r llall o'r eglwysi.

Bu peth o hanes y Parch John Parry mewn rhifynnau cynharach o'r 'Eco', a hynny mewn cysylltiad â phryniant Plas y Nant. Ond pwy oedd y Mr Storey a oedd yn fodlon cyfrannu'r swm teilwng o £100 tuag at achos Betws Garmon? A beth tybed ddigwyddodd ar ôl cael ymateb yr Esgob?

Cadw Fusutors

Gyda diolch unwaith eto i Eifion Roberts am ymateb, ac anfon rhestr o dai yn Llanberis oedd yn hysbysebu eu hunain fel llety ar gyfer ymwelwyr. Daw'r rhestr o o gopi o'r *Llanberis Guide*, a gyhoeddwyd tua diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Ymhlith yr enwau mae Tyddyn Charles, Llys Arthur, 4 a 7 Vaynol Cottages, Min-y-don, 4 a 5 York Terrace, 4 a 10 Victoria Terrace, Fair-View, Llys Alaw, Llys Ceridwen, Victoria House, Idan House, Tyddyn Marsley, Tanybwllch Cottage, Broneilian, Glynddol, Snowdon View a Hyfrydle.

ARVONIA



- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud; archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvoniaco.uk • Gwefan: www.arvoniaco.uk



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

Nid yw'r tŷ y soniais amdano yn y rhifyn diwethaf wedi ei restru, ac yn ôl pob tebyg, dim ond lluniaeth a gynigid yno, ac nid lle i aros.

Ty wedi ei anghofio

Diolch i Rhiannon Humphries-Jones am gysylltu ynglyn â Llwyn y Brain. Bu hi'n byw yno am gyfnod gyda'i rhieni, ac y mae hithau'n bryderus ynglyn â chyflwr yr hen blasdy. Eiddo Handpicked Hotels, sef perchnogion Seiont Manor yw'r plasy bellach, a bu cynlluniau ar un cyfnod i sefydlu canolfan cynadleddau yn Llwyn y Brain. Bellach, â'r hinsawdd economaidd mor fregus, parhau'n ddi-ddefnydd a di-afal-amdano a wna'r adeilad rhestredig.

Arolwg o Diroedd Comin Sir Gaernarfon

Yn 1909 aeth Cyngor yr hen Sir Gaernarfon ati i gasglu gwybodaeth am diroedd comin - a elwid ganddynt yn 'dir cyd' - ym mhob un o blwyf'r sir. Y cynghorydd sirol ar ran Llanberis bryd hynny oedd y siopwr a'r bardd, R.E.Jones. Yn ddiweddar gwelais lythyr yn ei lawysgrifen yn rhoi ateb i'r cwestiwn am dir cyd Llanberis. Fel hyn y mae'n ysgrifennu: 'Nid oes tir cyd yn Llanberis. Y mae pob modfedd wedi ei reibio gan Assheton Smith a'i dylwyth. Beth am Gastell Padarn a'r tir o'i

gwmpas? Yr un boneddwr sy'n hawlio'r hen gastell. A oes ganddo wir hawl i'r lle tybed?' A dyna ddweud ei ddweud yn blwmp ac yn blaen. Doedd bod yn wleidyddol gywir ddim yn bodoli bryd hynny mae'n rhaid.

Gwall arall mewn llyfr

Wrth bori mewn llyfr Saesneg *Place-Name Detective*, sef cyfieithiad gan Anthony Lias o erthyglau gan y diweddar Athro Bedwyr Lewis Jones, sylwais ar ddau gamgymeriad mewn naw gair o bennawd i lun o bont enwog Penllyn. Fel hyn y mae'r pennawd yn darllen: 'River Saint flows from Llyn Padarn under Pont Mwnwgl-y-llyn.'

Yn gyntaf, nid afon Saint ond Afon Rhythallt sy'n llifo o Lyn Padarn, ac y mae'n cadw'r enw hwnnw nes cyrraedd Llanrug.

Yn ail, mae Pont Mwnwgl-y-llyn yn cario'r ffordd fawr o dref y Bala dros afon Dyfrdwy fel y mae'n ymarllwys allan o Lyn Tegid.

Ac un o weisg Cymreiciaf Cymru - Gwasg Carreg Gwalch - a fu'n gyfrifol am y fath gamleoli.

A dyna ddigon i gnoi cil arno ar ddechrau blwyddyn arall. Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad am hanes yr ardal i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).

O SIAMBAR SELWYN

Chwith meddwl mai anfon y llith hwn i Alwena y bydda i yn hytrach na galw yng Ngwasg Gwynedd a chael sgwrs ddifyr yr un pryd hefo Alwena ac Islwyn.

Mae gen i gysylltiad wedi bod hefo Gwasg Gwynedd ers y cychwyn. Cofiaf gynnig un o'm llyfrau i'r Wasg pan sefydlwyd hi yn Hen Ysgol Nant Peris yn 1972. *Dewch i Adrodd* oedd teitl y gyfrol honno a wnes i, Gerallt nag Alwyn ddim dychmygu y byddai pedwar argraffiad o'r gyfrol wedi gweld golau dydd o fewn wyth mlynedd, ac fel y deallaf, mae yna alw o hyd am ambell gopi.

Yn 1976 fe gyhoeddwyd *Dewch i Adrodd Eto* ac fe gafodd y gyfrol hon hefyd yr un croeso, gydag amryw o'r darnau yn cael eu dewis fel darnau prawf mewn eisteddfodau led-led Cymru, yn lleol a chenedlaethol.

Gwasg Gwynedd hefyd a gyhoeddodd y gyfrol *Pawb yn Barod* yn 1990, a *A Dyma'r Ola* yn 1995 ac yn 1979 ar achlysur cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon fe gyhoeddwyd *C'nafon a Cherddi Eraill*. Y brif gerdd yn y gyfrol hon ydi pryddest 'Y Dref a ddaeth mor agos i'r brig yn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Clwyd yn 1973. Yn dilyn yr eisteddfod honno fe gyhoeddwyd pamffledyn o'r bryddest gan Wasg Gwynedd. Pris y pamffled oedd 10 ceiniog, ac fe werthwyd y cyfan mewn byr o dro. Os gwn i oes na gopi gan un o ddarllenwyr yr Eco? Mi fyddwn i yn barod i dalu mwy na deg ceiniog amdano.

Nid Gwasg Gwynedd, fodd bynnag, a fu'n gyfrifol am gyhoeddi fy nau lyfr cyntaf, sef *Llwyfan y Plant* yn 1957 ac *Ail Llwyfan y Plant* yn 1962. Fe gyhoeddwyd y ddwy gyfrol yma gan Hughes a'i Fab, Wrecsam. Mae'r diweddar

Brifardd Gwilym R. Tilsley yn ei gyflwyniad i'r ail 'Llwyfan' yn dweud mai fo a roddodd y wobr gyntaf erioed i mi am lunio darn adrodd i blant.

'Cofiaf y ffordd a gymerais o feirniadu'r gystadleuaeth honno,' meddai 'sef drwy ddarllen y darnau i hogyn saith oed a gofyn iddo fo ddewis yr un a hoffai ora. Fe ddewisodd 'Y Beic Bach Glas'. Ond, camgymeriad ydi hyn, y darn a ddewisodd yr hogyn bach saith oed oedd 'Bai ar Gam'. Gyda llaw yr hogyn bach saith oed hwnnw oedd Dr Gareth Tilsley, sef mab y Prifardd a'r Cyn-Archdderwydd.

Ond yn ôl eto at Wasg Gwynedd. Yn 1986 am fod y ddwy gyfrol *Llwyfan y Plant* allan o brint, fe gafwyd caniatâd i dethol darnau o'r ddwy gyfrol a gofynnais i'm cyfaill Geraint Lloyd Owen, ddewis a dethol. Yn 1986 fe gyhoeddwyd *Llwyfan y Plant* gan Wasg Gwynedd. Cyfrol sy'n cynnwys darnau a fu'n boblogaidd mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol, fel 'Jo y Bwji', 'Trip i'r Lloer', 'Y Beic Bach Glas', 'Tomi Smala', 'Sut i Adrodd' a 'Bai ar Gam'.

Do, mi fu 'na gydweithrediad hapus a llwyddiannus rhwng Gwasg Gwynedd a fi dros y blynyddoedd ac mae fy niolch i'n fawr iddyn nhw am waith graenus bob amser. Oes mae 'na 36 o flynyddoedd wedi mynd heibio ers i mi fynd â'r llawysgrifau o *Dewch i Adrodd* i'r hen ysgol yn Nant Peris. Pwy fasa'n meddwl bod 'na ambell un o hyd yn holi am gopi a'r darnau yn dal i gael eu hadrodd mewn eisteddfodau.

Bydd, mi fydd hi'n chwith iawn peidio â chael galw yng Ngwasg Gwynedd wedi'r holl flynyddoedd.

Diolch, Alwena ac Islwyn, am y sgwrs a'r croeso.



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts

Ffôn : 01286 870462

Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn

Ty Seiont, Ffordd Santes Helen

Gaernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ALL700

AGE
Concern

Os byddwch yn cysylltu a swyddfa Age Concern, byddwch yn ymwneud â chynnyrcholdd penodol o Age Concern Enterprises Limited (ACEnt). Mae ACEnt wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfyngiad yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gollrestredig.



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI
CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Er cof am Jim Ostler

Ar ei feic gweld aur o fyd, -
o'i weld craff
gweled creu addfwyn-fyd.
A welwn ninnau'r golud?
y mae her drwy Jim o hyd.

CYMDEITHAS LENYDDOL: Croesawyd nifer dda o'r aelodau i gyfarfod mis Ionawr gan y Llywydd, Ieuan Williams, gyda chroeso arbennig i'r gwr gwadd sef yr Athro Derec Llwyd Morgan. 'Y Brawd Llwyd' oedd testun ei ddarlith, a soniodd yn ddifyr iawn am nifer o feirdd a llenorion. Cyflwynodd y gynulleidfa i fyd llenyddiaeth Cymraeg mewn ffordd ddifyr gan ddangos mor dlawd fuasem heb y gair ysgrifenedig.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddo am siarad yn frwd am ei bwnc gan Elwyn Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 17 yn Festri Bethel gyda R.H. Griffiths (Machraeth) yn sôn am 'Gymeriadau'.

YSGOL SUL Y CYSEGR. Braf oedd gweld y Capel yn llawn i wasanaeth Nadolig arbennig gan blant yr Ysgol Sul. Yn dilyn gair o groeso gan Geraint Elis cafwyd stori'r geni gan y plant lleiaf, pob un wedi gwisgo fel angel, bugail, neu ŵr doeth. Wrth gwrs roedd rhaid cael Mair a Joseff hefyd. SEREN oedd y thema yn yr ail hanner a chafwyd darlenniadau a cherddi gan y plant hŷn i gyd-fynd â'r thema. I gloi'r cyflwyniad bu i'r holl blant ganu 'Un seren Wen', a chyn canu'r emyn olaf siaradodd y Gweinidog efo'r plant, gyda neges amserol. Talwyd gair o ddiolch i'r athrawon am bob cymorth tuag at y paratoi, i Siôn, Manon a Gethin am gyfeilio wrth yr organ, i Glenys am lunio'r gwasanaeth, ac i Edwina am addurno'r Capel. Cyflwynwyd cyfanswm y casgliad rhydd, sef £137.50 i Childline Cymru (NSPCC).

MERCHED Y WAWR. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr ymgasglodd nifer dda o'r aelodau yng Ngwesty'r Victoria Llanberis i fwynhau cinio Nadolig blasus. Arweiniwyd y noson fel arfer gan y Llywydd, Mair Price ac yn dilyn gair o groeso hysbyswyd yr aelodau am nifer o faterion y mudiad sef Cwrs Crefft y Gogledd a chystadlaethau Gŵyl Haf. Llongyfarchwyd Gwyneth Williams ar enedigaeth wyres fach, a llongyfarchwyd naw o'r aelodau ar dderbyn tystysgrif gan Goleg Menai yn dilyn mynychu cwrs ar osod blodau y llynedd. Bydd tîm yn cynrychioli'r Gangen mewn twrnament bowlïo deg ar Ionawr 16 a bydd Glenys ac Eirlys yn

cadw'n ddistaw ar ddydd Gwener Ionawr 23 er budd y Pwyllgor Anabl, sydd yn casglu arian eleni i brynu offer i Ysgol Pendalar. Yn dilyn y bwyd blasus cafwyd orig ddifyr yn chwarae Bingo. Dalier sylw mai yn Festri Cysegr am 7.30, fel arfer, y bydd y cyfarfodydd o hyn ymlaen.

Cyfarfu'r aelodau yn Festri Cysegr y mis yma o dan lywyddiaeth Mair Price. Rhannwyd gwybodaeth am faterion y Mudiad yn Genedlaethol a Rhanbarthol sef Gŵyl y Pum Rhanbarth, noson chwaraeon Arfon, a thrip penwythnos i Iwerddon. Dymunwyd yn dda i Aled, mab Glenys Griffiths, sydd wedi mynd i weithio i Vancouver am ddwy flynedd, llongyfarchwyd Anest, merch Eirlys Williams ar ei dyweddiad â Marc, cydymdeimlwyd ag Ellen Ellis yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, ac anfonwyd cofion at Oscar, gŵr Mary, a mam Gwyneth Williams, y ddau heb fod yn dda yn ddiweddar.

Karen Jones o Waunfawr oedd y wraig wadd, - arlunydd sydd yn ymddiddori mewn techneg newydd o gyfuno gwydr, enamel a llechen i gynhyrchu arddull o beintio gyda ffresni hollol wreiddiol. Roedd wedi dod â nifer o enghreifftiau o'i gwaith gyda hi gan egluro yn ddifyr iawn sut roedd yn mynd ati i greu ei chynnyrch. Diolchwyd yn gynnes iawn iddi gan Anne Elis, ac enillwyd y raffl gan Anita Owen.

Atgoffwyd pawb i ddod â £12.50, arian Swper Gŵyl Ddewi y tro nesaf gan edrych ymlaen i groesawu cynrychiolydd o Gwmni Siwgr a Sbeis, Llanrwst. **CLWB BRO BETHEL.** Cyfarfu'r aelodau ar gyfer cyfarfod mis Ionawr yn Festri Bethel, a chroesawyd pawb ynghyd gan y Prifardd Selwyn Griffith yr Is-Lywydd. Y siaradwr gwadd oedd Selwyn Williams o Rhiwlas, a chafwyd ganddo, gyda chymorth sleidiau, sgwrs ddiddorol iawn ar hunes y prosiect mawr o adeiladu y 'Mynydd Gwefru' yn Llanberis. Bu ynghlwm â'r gwaith fel Rhcolwr y cynllun am oddeutu deng mlynedd a dangosodd luniau o'r twneli a grewyd i gario'r dŵr i mewn ac allan, o'r amrywiol ncuaddau tanddaearol. Dros baned cafwyd sylw i holi cwestiynau o'r llawr.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Festri Cysegr yng nghwmni Buddug Jones a'i chi tywys, Ivy. **DIOLCH** Dymuna Ellen, Gwynfor a'r teulu, Drws y Coed, ddatgan eu diolch diffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a'r



Gwenan Elis, Cilgeran a Cemlyn Jones, Llanrug.

caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli brawd annwyl iawn, John Aneurin Jones, Penygroes. Gwerthfawrogwyd hefyd y rhoddion hael a dderbyniwyd Er Cof am John.

DIOLCH. Dymuna Pat Owen ddiolch o galon i gymdogion, ffrindiau a theulu am y caredigrwydd, ynghyd â'r ymweliadau a'r dymuniadau da a dderbyniwyd yn dilyn llawdriniaeth annisgwyl yn ddiweddar. Diolch i bawb.

DIOLCH. Dymuna teulu'r ddiweddar Jacqueline Ann Williams, 1 Post Office Row, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch i'r Parchedig Marcus Wyn Robinson. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd mor hael i Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru y swm o £1,105.

PRIODI. Dydd Llun Rhagfyr 29ain yng Nghapel y Cysegr priodwyd Gwenan Elis, Cilgeran a Cemlyn Jones, Llanrug. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Dymuniadau gorau i'r ddau.

Dymuna Gwennan a Cemlyn ddiolch i deulu a chyfeillion am bob dymuniad da ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

PRIODAS AUR.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i mam a dad, John ac Elizabeth Evans, Pen Parc, fydd yn dathlu eu Priodas Aur ar y 14eg Chwefror, gan David, Ann, Sian a Ceri a'u teuluoedd.

LLONGYFARCHIADAU i Eiry Myfanwy Price, 'Rynys Llanddeiniolen, sy'n ddisgybl Blwyddyn 7 ym Mrynrefail, am raddio gydag anrhydedd yn ei arholiad llais Gradd 3, Associated Board y Royal School of Music. Caiff ei hyfforddi gan Manon Llwyd, Bethel.

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyr mis Hydref: £40: (86)

Mari Humphreys, Llanfairpwll; £20: (111) Susan Owen, Llys Gwynedd, Bethel; £10: (102) Hugh Williams, Cefn Gwyn, Llanddeiniolen.

Enillwyr Tachwedd: £40: (95) Ann Lloyd Jones, 8 Penrhos, Bethel; £20: (45) Alun Williams, 4 Corra Linn, Bethel; £10: (67) Ellen Williams, 14, Tan y Buarth, Bethel.

Enillwyr Rhagfyr: £40: (128) Alan Ginsberg, Celtic House, Bethel; £20: (105) Ceinwen Williams, Cefn Gwyn, Llanddeiniolen; £10: (49) Carys Wyn Jones, 45 Bro Eglwys, Bethel.

CAPEL BETHEL. Daeth cynulleidfa dda ar fore Sul 21ain Rhagfyr 2008 i wrando ar blant yr Ysgol Sul yn perfformio eu Pasiant Nadolig. Y thema eleni oedd 'Cofio am y Preseb'. Arweiniwyd y rhan gyntaf gan y plant hŷn; Ffion, Cai, Siôn, Moli, Gwenno, Dyfan, Lowri a Fflur. Dechreuwyd yr ail ran drwy i'r holl blant ganu 'Dewch i Barti Iesu Grist', yna daeth Siôn ymlaen i ddarlenn - 'Mae'n debyg mai Sant Ffrancis o Assisi a gafodd y syniad o ail berfformio hanes y geni am y tro cyntaf ym mhentref Graecia yn 1224'. Y bugeiliad oedd Ben, Ioan a Morgan; Mair a Joseff oedd Betsan a Nathan; Gabriel oedd Eleri a'r angylion oedd Cadi, Anya, Josie ac Erin. Y tri gŵr doeth oedd Iolo Llyr, Huw ac Iolo Harri. Canwyd 'Cân y Preseb' gan Moli a'r gynulleidfa yn dilyn yn canu 'I orwedd mewn Preseb'. Canodd y plant ddwy garol i orffen - Sêr y Nos yn Gwenu a Carol o Ddiolch.

Talwyd gair o ddiolch gan y gweinidog i'r plant am eu gwaith canmoladwy ac i'r athrawon a'r rhieni am bob cymorth.

Bcti a luniodd y cyflwyniad. Roedd yr arian rhydd at Apêl De Affrica, Cymorth Cristnogol.



Plant Ysgol Sul Capel Bethel yn perfformio eu Pasiant Nadolig

YSGOL BETHEL FANDALIAETH YN YR YSGOL

Hoffwn ofyn yn garedig am eich cymorth mewn perthynas â thresmasu a difrod i adeilad yr ysgol a ddigwyddodd rhwng 5 o'r gloch, Ionawr 14eg a 7 o'r gloch y bore ar y 15fed o Ionawr. Daeth cin gofalwraig i'r ysgol a chanfod carreg fawr iawn wedi ei thaflu drwy wydr dwbl drws y dosbarth Meithrin. Roedd gwydr mân yn deilchion ar y llawr a bu raid taflu nifer o offer gwerthfawr ac enghreifftiau o waith plant. Er ein bod yn wynebu fandaliaeth yn rheolaidd efo poteli a chaniau cwrw ar y buarth, nid ydym erioed wedi wynebu y math hwn o ddifrod dianghenraid.

Mae'r heddlu wedi cael eu hysbysu ac maent yn gwneud ymholiadau. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y buarth

yn ddiogel cyn i'r plant gyrraedd yr ysgol, ond mae'n fater sydd yn peri pryder enfawr i ni o ran iechyd a diogelwch y plant sydd yn ein gofal. Yn sicr, nid yw'n deg ar blant Ysgol Bethel bod eu diogelwch yn cael ei roi yn y fantol. Maent yn haeddu cael eu haddysgu mewn amgylchedd diogel.

Yn ogystal â'r materion iechyd a diogelwch difrifol hyn, defnyddir swm sylweddol o gyllid prin yr ysgol i drwsio y drws. Arian a fwriadwyd ar gyfer plant yr ysgol yw hwn ac maent yn eu colled o'r herwydd.

Mae'r heddlu yn cydweithio gyda'r ysgol i geisio datrys y broblem ond gan ei fod yn fater cymunedol, gofynnwn hefyd am eich cydweithrediad fel rhieni a chymdogion drwy gymryd y camau a ganlyn:

- Os gwelwch unrhyw un yn

tresmasu ar dir yr ysgol, ffoniwch 0845 6071001 neu 0845 6071002. Bydd eich galwad yn gyfrinachol ac ni fydd raid i chi roi eich enw, os nad ydych yn dymuno.

Gyda diolch am eich cydweithrediad.

DYLAN PARRY

CWMNI DRAMA TRESURE TROVE

Cafodd plant yr ysgol i gyd Sioe Bypedau wych gan y cwmni uchod. Stori Chineaid y platiau 'Willow Pattern' a gafwyd. Roedd plant Dosbarth Mrs Williams wedi gwirioni gan eu bod yn sôn am China fel rhan o'u gwaith thema!

CYHOEDDI HANES CAPEL

"Capal Bont"

Canrif o hanes
Capel Pontrhythallt



Ychydig ddyddiau cyn y Nadolig daeth llyfr ar hanes un o gapeli ieuengaf y fro o'r wasg. Erbyn dechrau'r ganrif ddiwethaf roedd pob ardal ym mhlwyf Llanrug yn cael ei wasanaethu gan gapel yn perthyn i un o'r gwahanol enwadau - ar wahân i Bontrhythallt. Yn sgil diwygiad Evan Roberts, bu symudiad i gael capel yn yr

ardal honno gan y Methodistiaid. Flwyddyn i'r Nadolig diwethaf, roedd Capel Pontrhythallt, neu Capel y Rhos fel y mae'n cael ei alw bellach, yn dathlu canrif o addoli.

Mae llyfryn yn croniclo hanes y capel, wedi ei ysgrifennu gan Dafydd Whiteside Thomas, a'i gyhoeddi gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon. Ynddo, ceir hanes datblygiad yr eglwys o'r cychwyn a pam y bu heb weinidog swyddogol am dros ddeng mlynedd ar hugain. Ceir yma hefyd hanes uno capeli'r ardal ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf, yn ogystal â chronicl o weithgareddau cymdeithasol y capel: trip yr Ysgol Sul, y Gymanfa, gardd y capel, y Gymdeithas Lenyddol Undebol, y Cwmni Drama ac Eisteddfodau'r Plant.

Mae'r llyfr ar gael am £5 gan swyddogion y capel.

DODREFN a LLORIAU PERKINS CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

with droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (0)870 832 9903

CYMORTHFA



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. dewch draw i'r:

Mynydd Gwefru, Llanberis
3:00-4:00pm
Dydd Llun, 16 Chwefror

Dim angen apwyntiad. Am fwy o fanylion ffoniwch **01286 672076**

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Y GANOLFAN. Bydd Cyfarfod o bwyllgor Y Ganolfan yn cael ei gynnal yn Y Ganolfan am saith o'r gloch yr hwyr ar Nos Lun, Chwefror 9ed. Mae gan pob enwad yn y pentref hawl i gael cynrychiolydd ar y pwyllgor.

LLEISIAU LLIWEDD. Daeth tymor llwyddiannus arall i'r Côr i ben unwaith eto, gyda Dathliad Nadolig yng Ngwesty'r Goat ym Meddgelert.

Yn unol â pholisi'r Côr, ar ddiwedd y Tymor cyflwynwyd siec £50 yr un i'r mudiadau canlynol: Ysgolion Sul St Padarn a Chapel Coch; Yr Eglwys Fach; Y Cylch Meithrin Lleol; Adran Feithrin Ysgol Dolbadarn; Ysgol Pendalar (via Blwyddyn 6 Ysgol Brynrefail); Cronfa Joshua Clarke, Caernarfon; Uned Hergest; Ysbyty Gwynedd; Y Mudiad Alzheimers.

Diolch i bawb am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a hoffem ddymuno 'Blwyddyn Newydd Dda' i holl ddarllenwyr yr Eco.

Hoffem hefyd ddymuno adferiad llwyr a buan i Dilys, un o aelodau ffyddlon y Côr, wedi ei anhwylder diweddar ac edrychwn ymlaen am ei chwmni'n ôl yn y Côr yn fuan.

DIOLCHIAU. Dymuna Dilys Mai Roberts, Yr Haciau, Penisarwaun, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion, ffrindiau, aelodau Capel Coch a Nant Padarn, Côr Lleisiau Lliwedd a phawb arall a fu mor ffyddlon tuag ati yn ystod ei anhwylder yn ddiweddar.

Diolch am yr ymweliadau, galwadau ffon, cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd. Roedd yn eu gwerthfawrogi'n fawr.

GWERTHFAWROGIAD. Dymuna John a Mattie Hughes, Tan Y Clogwyn, ddatgan eu gwerthfawrogiad diffuant am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd John yn ystod cyfnod ei waeledd yn Ysbyty Gwynedd, ac yna, gartref. Diolch i bawb.

DIOLCHIAU. Gair bach o ddiolch i Bobol Llanberis am yr holl gardiau ac arian a gawsom er cof am Haydn—Vera a John. **DIOLCHIAU.** Dymuna Ann, Rhiannon a theulu y ddiweddar Maria Pritchard, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd ganddynt ar ôl colli Maria.

Diolch i'r Gweinidog, Y Parchedig John Pritchard, am ei wasanaeth hynaws yn Festri Capel Coch, i Mrs Bcthan Holding am ei chyfraniad ar ddiwrnod yr angladd, i Mrs Anne Parry am gynorthwyo yn y ty ac i'r ymgymcrwyr, Gwynfor Jones o E W Pritchard, am eu trefniadau trylwyr.

Diolch hefyd am y cyfraniadau i Gartref Preswyl Plas Garnedd. Diolch yn fawr iawn i bawb.

YSGOL DOLBADARN

Derbyniais y manylion yma, am estyniad Ysgol Dolbadarn, gan y diweddar Mrs Moreen Lennon, rai blynyddoedd yn ôl. Wedi imi ei ddarganfod ychydig ddyddiau yn ôl, teimlais y buasai yn briodol ei gynnwys, yn dilyn newyddion y 'Dathlu 70 Mlynedd' a nodwyd yn yr Eco diwethaf.

Agorwyd yr ysgol bresennol gan Mr W. P. Wheldon (Ysgrifennydd Adran Gymreig y Bwrdd Addysg) ar y 8fed o Hydref 1938 am 2 o'r gloch. Caderiudd Rheolwyr yr Ysgol ar y pryd oedd Mr Hugh Jones.

Yr oedd dwy adran yn yr ysgol:

- Adran y Babanod gyda Phrifathrawes: (Mrs Price Jones) a dwy athrawes. Nifer y plant oedd 85.

- Adran Iau gyda Phrifathro: (Mr Llew Madoc Jones) a 7 athro. Nifer y plant oedd 226.

Staff yr ysgol yn 1938 oedd:

Adran y Babanod: Prifathrawes Miss Morfudd Price, Miss J.A. Williams, Miss G. Thomas
Adran y Safonau

Prifathro: Mr Llew Madoc Jones, Mr D.J. Owen, Miss B.E. Jones, Mr T.E. Parry, Miss C. Hughes, Miss M. Humphreys, Miss R. Jones, Miss H.J. Jones.

Adeiladwyd yr adeilad bron i gyd ar graig ond codwyd y 'gym' ar dir mawnog iawn. Caed cryn drafferth i gael sylfaen ond llwyddwyd yn y diwedd trwy ddefnyddio darnau hirion (*girders*) o orsaf yr Wyddfa. Gwelir gwendidau yn y muriau yn yr adeilad hwn - hwyrach mai cyflwr meddal y tir yw'r rheswm am hyn.

Dylid cofio hefyd fod Ysgol Dolbadarn wedi ei hadeiladu mewn cyfnod anodd iawn, sef ychydig amser cyn yr Ail Ryfel Byd. Roedd cwmwl y rhyfel yn hongian dros Brydain a gwneid popeth bron gyda'r posibilrwydd o ryfel mewn golwg.

Y mae tri llawr yn perthyn i'r ysgol - y seler, y llawr cyntaf a'r ail lawr. Nid cynllun unigryw ydyw gan fod Ysgol Penybryn, Bethesda, o'r un natur. Mae dau reswm am hyn, sef:

prinder arwynebedd addas i adeiladu a chynnwys iard hefyd; a gellid addasu yr ysgol a hynny heb unrhyw drafferth yn ysbyty, pe byddai angen am hynny yn ystod blynyddoedd y rhyfel.

Prifathrawon yn dilyn Mr Llew Madoc Jones oedd Mr R. E. Jones, Mr Stanley Owen, Mr John Hugh Hughes, Mr Cynrig Hughes, Mrs Elizabeth Roberts a Mr Rolant N. Wynne.

CYNRIG HUGHES

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

SGOL CWM Y GLO

Mae bore dydd Mawrth a bore dydd Mercher yn amser prysur yn yr ysgol y tymor hwn gan fod Heather Lowe yn gweithio yno fel Artist Preswyl. India ydy'r symbyliad ac rydym yn gwneud yn fawr o'n cysylltiadau gyda Menter Fachwen a Kotayam yn hyn i gyd.

Fel rhan o'i blwyddyn gyntaf ar Gwrs Dysgu, mae Jennifer Hamer o Lanrug gyda ni ar hyn o bryd yn arsylwi ac yn gweithio gyda'r Adran Iau. Gobeithiwn y bydd yn mwynhau y profiad ac y bydd o fudd iddi yn ei gyrfa.

Mae Cyngor Ysgol a Chyngor Eco newydd wedi eu hethol ac wedi cyfarfod. Mae'r Cyngor Eco yn brysur yn meddwl am ffyrdd o arbed ynni yn yr ysgol. Llongyfarchiadau i Shannon Christy, Rebecca Locket ac Anya Arkless am gynllunio poster a ddewiswyd i Galendr Arbed Ynni a gynhyrchwyd gan Cyngor Gwynedd.

Mae cyfarfodydd Yr Urdd a Champau'r Ddraig wedi ailgychwyn ar ôl ysgol ar nos Fercher.

DIOLCH. Dymuna John a Pat Chick, a Hywel a Margaret, Nant Forgan, a'u teuluoedd ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar farwolaeth mam a chwaer annwyl, Gwyneth Chick.

Diolch hefyd i'r Parchedig Gwynfor Williams am wasanaethu ac i Dr William Munro am ei wasanaeth yntau wrth yr organ. Diolch i Gwynfor

Jones o E.W. Pritchard am ei drefniadau trylwyr a pharchus ac i holl staff y Cartref ym Mhenisarwaun am eu gofal a'u caredigrwydd.

CAPEL Y TABERNACL. Cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig yr ysgol yng Nghapel y Tabernacl ar 16 Rhagfyr. Thema eleni oedd 'Y Blwch' a chafwyd dau berfformiad rhagorol gyda phob plentyn yn yr ysgol yn cymryd rhan. Diolch i Mrs Oliver, Mrs J. Roberts, Mrs G. Roberts a Miss E. Jones am hyfforddi'r plant mor raenus a chlodwiw, hefyd i bawb a oedd yn cynorthwyo gyda'r plant.

GENEDIGAETH. Ar ddiwrnod Nadolig ganwyd merch fach i Karah ac Andrew, Cari Ann, chwaer fach i Ceirion Wyn a wyres fach i Nigel Williams, Aran. Wedyn ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn newydd ganwyd mab bach, Dylan Llywelyn, i Jennifer a Robert, 4 Dôl Afon, brawd bach i Elliw, Keith, Robert a Jac. **LLONGYFARCHIAU** i Kimberley Jones, 6 Bryn Crwn, ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn 18 oed.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Gwynedd Jones, 5 Bryn Crwn, yn ei brofedigaeth lem o golli ei dad ychydig wythnosau yn unig wedi colli ei fam.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr Hywel Williams a'r teulu, Nant Forgan, yn eu profedigaeth o golli chwaer, Mrs Gwyneth Chick.



Heather Lowe yn gweithio gyda Ddosbarth Marchlyn.



Lluniau Rebecca, Shannon ac Anya gafodd eu dewis i'r Calendr. Daeth Cara, Ffion Haf a Lewis yn ail. Cafodd y chwe phlentyn wob gan Gyngor Gwynedd.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

TYNFA MISOL: Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am fis Rhagfyr oedd: £40: (56) Alan Griffiths, 6 Tai Glangwna; £25: (80) Mark a Linda Roberts, Tŷ Newydd; £15: (100) Hugh Jones, 22 Tai Glangwna; £5: (2) Peter Evison, Cae Hopcyn. Yn ychwanegol, Enillwyr y Bonws ar gyfer 2008 o £10 yr un oedd Bwethan Iwan, Llandefegin, Alan Griffiths, Rosie Lloyd, Llio Jones, Peter Hughes, Arwel Griffiths, Hugh Jones, Leti Williams a Mary Henderson. Enillwyr Tynfa Misol mis Ionawr oedd: £40: (24) Ellen Burke, 2 Caeathro Bach; £25: (109) Allan Burford, 2 Erw Wen; £15: (78) Mary Henderson, 6 Erw Wen; £5: (77) Mair Roberts, Swn y Gwynt.

Diolch i gefnogaeth barhaol yr hapchwaraewyr, dros y Nadolig roedd y Pwyllgor wedu medru trefnu a thalu am y canlynol: cerdyn a rhodd y pensynwyr; prynu a goleuo'r Goeden Nadolig; trefnu i Fand Iau Llanrug arwain y canu Carolau a darparu cawl cartef i bawb; trefnu ymweliad Siôn Corn, trefnu sioe dewin, darparu swper a rhoi boc o siocledi i'r plant iau; a rhodd i'r plant hŷn. Diolch i Dafarn Bryn Gwna am noddi swper y plant iau.

Dymuna'r Pwyllgor Flwyddyn Newydd dda i bawb a gobeithio derbyn eich cefnogaeth trwy 2009.

FFAIR NADOLIG. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd tuag at y rafflau, y bwrdd caccnau a'r stondinau a gemau ac am y rhoddion amrywiol hael eraill. Roedd y noson yn un stormus ond cafwyd digon o hwyl gan y plant a'r oedolion a fentrodd allan. Roedd yr arbrawf i gynnal y Ffair ar nos Wener yn un llwyddiannus. Elw y noson oedd £205.

BABI NEWYDD. Llongyfarchiadau i Ceri a Paul, Hen Gapel, ar enedigaeth merch, Anna.

CANU CAROLAU. Yn anffodus, roedd rhaid cynnal Canu Carolau cymunedol mis Rhagfyr yng Nghanolfan y Capel oherwydd y tywydd garw. Fodd bynnag, roedd Band Iau Llanrug yn medru arwain cynulleidfia niferus i ganu'r Carolau traddodiadol. Wedyn, diolch i Gwenllian Daniel, cafwyd cyfle i gymdeithasu wrth flasur cawl cartref. Casglwyd £95 tuag at Gronfa Joshua Clark. **COLLEDION.** Dros y gwyliau, bu farw Mary 'Albert' Jones, Tai Glangwna gynt, yn 97 mlwydd oed yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli. Hefyd bu farw John Jones, brawd Alwyn Jones, Y Dderwen.

Cydymdeimlwn â'r teuluoedd. **YMUNO A GOFALAETH.** Bu cyfarfod agored ar gyfer aelodau, gwrandawyr, cyfeillion a chefnogwyr Capel Caeathro am 7.00 o'r gloch nos Iau, 12 Ionawr. Y Parch Marcus Robinson oedd yn arwain trafodaeth ar y camau nesaf er mwyn i Gapel Caeathro ymuno â gofalaeth Henaduriaeth Arfon. **DIOLCH.** Dymuna Alwyn a Nia, Y Dderwen, Rhos Bach, ddatgan eu gwerthfawrogiad am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth yn ddiweddar o golli brawd annwyl.

Diolch am y geiriau caredig trwy lythyrau a chardiau, yr ymweliadau a'r galwadau ffôn, ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am John.

Gwerthfawrognw gefnogaeth cymdogion a ffrindiau yn fawr ar adeg fel hyn, a diolch am eu presenoldeb ym Mhenygroes ar ddydd yr angladd.

CAPEL CAEATHRO ADEG Y NADOLIG. Cynhaliwyd y Gwasanaeth Nadolig i ddathlu Gŵyl y Geni a chymerwyd rhan gan amryw o'r aelodau a chyfeillion yr Achos yn yr Oedfa arbennig hon. Diolch i blant yr Ysgol Sul am helpu i addurno'r Capel gyda'r Oren olau.

OEDFAON Y CAPEL.

Cynhelir y cyfarfodydd canlynol yn ystod mis Chwefror

1: 11.00: Ysgol Sul
2.00: Mr Charles Wyn Jones
8: 11.00: Ysgol Sul
15: 2.00: Mr Richard Lloyd Jones
Dim ysgol Sul
22: Dim Ysgol Sul nac Oedfa.

Croeso i bawb.

Cefnogwch ein hysbysebwy

Ar gael AM DDIM!

Yamaha Electrone
Organ drydanol
Gyda 2 set o allweddellau.
Nam bach trydanol.
Llêd 45"
Uchder 38"
Dyfnider 23"
Ffôn -
01286 677149

UN FUNUD FACH

Y FATH

DDISGWYLIADAU

Ddydd Mawrth, Ionawr 20fed, 2009, a'r fath obeithion ar ysgwyddau un dyn!

Bu'r disgwyl yn hir, a'r papurau newydd a'r cyfryngau'n llawn o'r peth ers dyddiau. Ond doedd y gŵr ifanc y bu cymaint o sôn amdano ddim am ddod. A'r pnawn hwnnw, roedd gan Gary Cooke gysur i'r miloedd o gefnogwyr a siomwyd, 'Nid yw'n ddiwedd y byd os na chawn ni Kaka. Fe gawson ni Craig Bellamy.' Am nad yw Kaka'n dod, mae gobeithion cefnogwyr Manchester City ar gapten ein tîm cenedlaethol ni. Fe wyddom am ddawn y Cymro bach, ond rhaid i'r mwyaf gwladgarol ohonom gydnabod nad yw hwnnw, er gwaetha'i datw Glyndwraidd, i'w gymharu â'r Cristion o Frasil sydd ymysg chwaraewyr gorau'r byd.

Ie, ddydd Mawrth, Ionawr 20fed, 2009, a'r fath obeithion a'r fath ddisgwyliadau a hoeliwyd ar un dyn! Bu'r disgwyl yn hir, a'r papurau newydd a'r cyfryngau'n llawn o'r peth ers misoedd. Ac fe ddaeth y gŵr ifanc y bu cymaint o sôn amdano. Nid gobaith clwb, ond gobaith dinas a gwlad a chyfandir a byd cyfan oedd arno'r diwrnod hwnnw. Yr oedd llygaid y byd, yn llythrennol felly trwy'r teledu, ar Barack Obama wrth iddo gael ei urddo'n Arlywydd newydd Unol Daleithiau'r America. Mae'r byd yn disgwyl i'r gŵr hwn fod yn wahanol i'w

ragflaenydd. Dylai hynny fod yn rhwydd! Ond mae disgwyl hefyd iddo wneud gwahaniaeth, trwy roi trefn ar economi America (a'r byd o ran hynny); gwireddu'r freuddwyd o degwch a chyfiawnder i bawb o bob lliw a hil a chred o fewn ei wlad; dod â'r rhyfela yn Afghanistan ac Irac i ben; clirio llanast Bae Guantanamo; sicrhau heddwch yn y Dwyrain Canol; dileu tlodi a newyn yn Affrica ei gyndadau; datrys argyfwng Newid Hinsawdd; ac ati, ac ati. Bydd angen doethineb mawr a nerth arbennig arno dros y misoedd nesaf. Bu gweddio taer ar ei ran ar ddechrau ac ar ddiwedd y seremoni urddo, ac mor braf oedd gweld hynny. Gweddïwn ninnau drosto gan sylweddoli bod y penderfyniadau pwysig a wneir draw yn Washington yn effeithio'n uniongyrchol ar fywydau miliynau o bobl ar draws y byd. Bydd yn amhosibl iddo gyflawni popeth a ddisgwyliar ganddo ac ni fydd modd iddo ddatrys yr holl broblemau sy'n ei wynebu heddiw, ond gweddïwn y bydd Arglwydd nef a daear yn ei ddefnyddio ef a'i arlywyddiaeth er daioni yn ei wlad ei hun ac mewn sawl lle ar draws y byd. Boed iddo gyflawni ei waith yn nerth a thrwy ras yr Arglwydd Dduw. A phan fydd rhai o'r gobeithion yn pylu, boed i bawb sy'n disgwyl cymaint oddi wrtho gael gras i gofio mai meidrol yw'r Arlywydd yntau.

JOHN PRITCHARD

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

NODYN PWYSIG. Er mwyn lleihau amseroedd aros rydym wedi penderfynu newid i system apwyntiadau yn Meddygfa Llanrug.

Byddwn yn treialu hyn, gan ddechrau ar 5 Ionawr 2009.

Hoffem i chi drefnu'r apwyntiad drwy Feddygfa Llanrug ond deallwn na fydd hyn bob amser yn bosibl.

Diolch

DRS ROBERTS, LLWYD, JONES A GWILYM, MEDDYGFA LLANRUG

CAPEL Y RHOS. Yn ystod mis Rhagfyr, cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul lle cyflwynwyd hanes geni'r Iesu ar lafar ac ar gân. Tra fod y bugeiliaid yn draddodiadol, cafwyd angylion modern iawn. Da iawn pob plentyn am wneud ei waith mor ganmoladwy a diolch o galon i holl athrawon yr Ysgol Sul am eu gwaith caled yn hyfforddi'r plant.

Mwynhawyd parti Nadolig yn dilyn y gwasanaeth ac roedd pawb wrth eu bodd yn croesawu Sion Corn i'w plith.

Am 9 o'r gloch ar fore dydd Nadolig, cafwyd gwasanaeth byr a chynnes lle daeth llond y festri ynghyd i ddathlu'r ŵyl. Arweinwyd y gwasanaeth gan y Parch Marcus Robinson, cin gweinidog, a'r gyfeilyddes am fis Rhagfyr oedd Mrs. Sian Wheway. Daeth y plant ag un anrheg Nadolig bob un i'w ddangos i'r gynulleidfa. Rhoddodd y cyfan gychwyn bendigedig a bendithiol i'r dydd arbennig hwn.

Oedfaon mis Chwefror

Chwefror 1: Y Gweinidog

Chwefror 8: Mr. T Alun Williams

Chwefror 15: Y Gweinidog

Chwefror 22: Mr. Aled Ifan

PROFEDIGAETHAU. Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Eirlys Pierce, Sŵyn yr Awel, yn 62 mlwydd oed. Roedd wedi ymladd yn galcd yn crbyn ci salwch ac, yn ystod y cyfnod, wedi codi miloedd o arian tuag at Elusen Cancr yn Ysbyty Gwynedd.

Cydymdeimlwn â chi, Ian, a'r teulu ac â'i holl ffrindiau, ymhell ac agos.

Daeth dwy brofedigaeth i ran Mrs Joan Williams, Llwyfor: collodd ei chwaer yn Nottingham a'i modryb yn Abertawe. Cydymdeimlwn â chithau hefyd.

PEN-BLWYDD. Dathlodd Mrs Joan Williams, Llwyfor, ei phen-blwydd yn 85 mlwydd oed cyn y Nadolig. Mae yn trefnu Bingo bob dydd Iau yn Hafan Elan ac, fel gwerthfawrogiad o'i gwaith, dyma Mrs Joyce Ransom yn ei chyflwyno â thusw o flodau - ar ôl cael gwledd a chacen ben-blwydd!

DIOLCHIADAU. Dymuna Joan

Humphreys, Noddfa, Llanrug, ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu a'i chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad tuag ati yn ei phrofedigaeth o golli ei hannwyl briod, Dr David Humphreys.

Diolch arbennig hefyd i Drs Huw Roberts a Penrhyn Jones; staff y Feddygfa; y paramedics; y Parch Marcus Robinson; Mr Charles Jones am roddi teyrnged i David; Alun Rhys Williams am ei wasanaeth wrth yr organ ac i'r ymgymerwr, Gwynfor Jones, am ei wasanaeth urddasol.

Diolch hefyd am roddion hael at Ymchwil y Galon.

BABIS NEWYDD.

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol:

Cenwyn a Lowri ar enedigaeth merch fach, wyres gyntaf i Dick a Wendy, Stad Talybont.

I Carolyn ac Alun, 39 Glanffynnon, ar enedigaeth tripledi, Cai, Beca ac Erin, llond llaw iddynt ac i Nain a Taid, Eirlys a Dafydd, Berllan, a Nain a Taid Penygroes.

Pob dymuniad da i chi i gyd.

PRIODASAU. Priodwyd Adrian Evans, mab Ronnie a Doris, 4 Ffordd Glanffynnon â Bethan ar 27 Rhagfyr. Llongyfarchiadau a dymunwn bob hapusrwydd iddynt.

Hefyd ar 29 Rhagfyr, priodwyd Cemlyn Jones, mab Doug ac Avril Jones, 14 Minffordd â Gwenan Elis, merch Geraint ac Anne Elis, Bethel. Dymunwn bob hapusrwydd i chwithau hefyd.

DIOLCHIADAU. Dymuna Carolyn ac Alun, 39 Glanffynnon, ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau i gyd am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth Cai, Beca ac Erin.

DIOLCH. Dymuna Ian, Sŵyn yr Awel, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ato yn ei brofedigaeth o golli ei briod, Eirlys. Diolch i'r meddygon a'r nyrsus am eu gofal arbennig ac i bawb am y rhoddion hael o dros £2,000 a gasglwyd er cof am Eirlys i Feddygfa Llanberis tuag at waith Nyrsus Cymuned yr ardal. Diolch i'r Parchedig John Pritchard ac i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth ac i Mr Gwynfor Jones o gwmni E.W. Pritchard, Llanberis, am drefniadau'r angladd.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Dymuniadau gorau i Cyril Roberts, Teras Minffordd, ar ei ben-blwydd yn 70 oed. Llongyfarchiadau i chi.

DIOLCHIADAU. Dymuna Linda, Lyn a Lisa Shudlack, a'r teulu oll ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad dderbyniwyd yn dilyn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl iawn, sef Leon.

PROFEDIGAETH. Bu farw Mrs Beryl Thomas, Awel Deg, Stad Nant y Glyn, ar ôl gwaeledd brwnt iawn. Gweddw Mr Bob Thomas, a fu farw ychydig yn ôl, a mam annwyl i Arwyn a Rheon a nain a mam yng nghyfraith gariadus. Trist iawn fydd ei cholli i'r teulu ond hefyd, colli dau oedd mor weithgar yn y pentref a'r capel ac mor gymwynasgar erioed.

Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant atoch fel teulu.

PLAID CYMRU. Ddechrau mis Mehefin, bydd Etholiadau Ewrop yn cael eu cynnal, a'r ail ymgeisydd ar restr Plaid Cymru yw Eurig Wyn o'r Waunfawr. Mae Jill Evans yn aelod gwych yn Senedd Ewrop, ac mae gobaith cryf y gellir ennill ail sedd i'r Blaid eleni, a chael aelod arall i'n cynrychioli gyda Jill. Nos Fercher, Chwefror 4, bydd Eurig yn egluro beth yw polisiau'r Blaid yn Ewrop, ac mae croeso cynnes iawn i bawb ddod i'w glywed yn y cyfarfod yn Sefydliad Coffa Llanrug am 7.30.

Nos Wener, Chwefror 27, bydd Cangen Llanrug yn dathlu Gŵyl Ddewi drwy fwynhau Cinio Ddewi ngwesty Fictoria Llanberis. Bydd gwledd yn ein haros a digon o hwyl yng nghwmni'r gŵr gwadd, Neville Hughes. Manylion am y noson i'w cael gan swyddogion y gangen.

MERCHED Y WAWR.

Nos Fawrth, 9 Rhagfyr, mwynhawyd Cinio Nadolig amheuthun yn y Caban, Brynrefail. Diolchwyd i Ann Thomas a Myfanwy am wneud y trefniadau a diolchwyd i staff y Caban am y wledd a'r croeso. Enillwyr y raffl oedd Eryl, Ann Lloyd a Helen.

Nos Fawrth, 13 Ionawr 2009, dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i bawb gan y Llywydd, Phyllis Elis. Darllenwyd Addunedau gwerth i'w hystyried gan y Mudiad, sef: i gychwyn bob sgwrs yn y Gymraeg, i fynnu defnyddio gwasanaethau Cymraeg, a ffonio yn y Gymraeg a mynnu ateb yn y Gymraeg os yn bosibl.

Cynhelir Eisteddfod Cylch yr Urdd Arfon yn Ysgol Brynrefail ar Sadwrn, 28 Chwefror. Cytunwyd ein bod, fel cangen, i fod yn gyfrifol am y caffi. Cynhelir 'Hwyl y Pum Rhanbarth' yn Ysgol Friars, Bangor ar Sadwrn, 9 Mai, Pris £15, enwau rhagblaen.

Llongyfarchwyd Cangen Rhiwlas ar ennill y Cwis Cenedlaethol. Bu Iona, un o aelodau tîm y cwis yn aelod ffyddlon o Gangen Llanrug cyn cychwyn cangen yn Rhiwlas.

Gwestai y noson, a noddwyd gan yr Academi, oedd y Prifardd Ifor ap Glyn, sef Bardd Plant Cymru 2008-09. Cafodd ei ddwyn i fyny yn Llundain ond roedd ei wreiddiau'n ddwfn yn nhir Cymru. Mae ganddo gysylltiadau teuluol yn Llanrwst

a'r Fachwen. Aeth i'r Brifysgol yng Nghaerdydd i astudio Cymraeg a Hanes Cymru. Wedi 10 mlynedd yn y Brifddinas, symudodd i Ddinbych ac yna i dref y Cofi, Caernarfon, ac yno y mae ers ugain mlynedd. Mae'n un o sylfaenwyr Cwmni Da ac mae'n gyflwynydd rhaglenni sy'n annog pobl i siarad Cymraeg a throi popeth yn wyrdd. Addunedau gwerth chweil i'w cadw!

Darllenodd bigion o'i gerddi a hynny'n fyrlymus a difyr. Yn ei gerdd 'Map yr Underground' iddo ef yn blentyn roedd Llundain yn lle Cymreig ac roedd 'pob plentyn yn Llundain yn gwybod sut mae'i enaid wedi'i weirio am fod lliw i bob lein a lein i bob llwyth.'

Darllenodd y gerdd ogleisiol 'Nigel' gyda'i Gymraeg llac - ond gwell Cymraeg llac efallai na Saesneg slac.

Hyd yn oed yn Llundain roedd y lluniaeth ar y bwrdd swbwrbaidd am bump, yn union fel amser Swpar Chwarael:

'am mai dyna ddisgwyliid gan wraig

i ddyn fu'n trin y graig.

ac mae rhai arferion mor wydn â'r dytchis a'r ladis porffor a hebryngwyd o Ddinorwig gynt.'

Bu'r gyfres *Lleisiau'r Rhyfel Mawr* yn glasurol. Cafodd gyfle i gyd-fyw hefo milwyr a rhannu eu profiadau. Darllenodd lythyrau milwyr o'r ardal hon amser y Rhyfel Mawr: Caradog Williams o Lanrug a hogia o Gaernarfon. I gloi ei sgwrs darllenodd gerdd am un arbennig iawn, un a edmygir yn fawr yn Llanrug, Bro'r Eco a thu hwnt, sef Haf Thomas, Buarthau. Y mae Haf yn gyfnither i Bethan, gwraig Ifor ap Glyn, ac mae Bethan yn nith i Ann Thomas, ysgrifenyddes y gangen. Dyma ran o'r gerdd:

Haf Thomas yn 30

Yn drideg oed, yr hydref ddaw dechreuwn fynd yn hŷn,
a henaint ydi'r gaeaf
y tymor olaf un;
- ond Feistres Thomas, gwyn dy fydd
wyt tithau heddiw'n Haf o hyd!'

Diolchwyd i Ifor ap Glyn gan Phyllis - bu'n orig hynod o gartrefol a difyr. Enillydd y raffl oedd Margaret, Dwyros. Diolch i Margaret Parry, Eryl, Carrie a Megan Jones am wneud y baned. Mair Parry, Meirwen, Carys a Gwenda fydd yn gwneud y te fis Chwefror.

Cyflwynwyd tusw o flodau i Phyllis, ein Llywydd, gan yr Is-lywydd, Margaret Parry, ar achlysur dathlu pen-blwydd arbennig ar 20 Ionawr.

Gŵr gwadd Chwefror yw Geraint Huws Roberts, Bangor, gyda'i 'Atgofion am yr Hen Ardal'.

DALIER SYLW. Cynhelir Pwyllgor i aelodau'r pwyllgor am 6.30 ar y noson i drefnu Noson Dathlu Gŵyl Ddewi.



Ar Ben Arall y Lein

Tydi amser yn hedfan, ar drothwy tymor arall, a teimlo fy mod dim ond newydd gau'r drws ar yr hen dymor gyda'r cyfarfod blynyddol yng Nghaernarfon ar 11 Rhagfyr 2008.

Am y tymor a fu: fe gyflwynwyd Tlws Tomi Lovell i Clifford Thomas, Felinheli am ei waith er budd y Gymdeithas dros y flwyddyn. Un dygn iawn yw Cliff a rhaid diolch yn arbennig iddo am ei frwdfrydedd a'i ffyddlondeb, ac i'w gadw i fynd yn ystod y misoedd oer mae'n ofalus iawn yn edrych ar ôl y llosgwr coed sy'n cynhesu'r caban yn Crawia.

Tlws W.J. Williams yw'r darian i ddeilydd yr eog trymaf o ddyfroedd y clwb, eleni y sgotwr oedd Dafydd Spencer, Llandudno, gyda eog dros 17 pwys ar bluen o Lyn Doctor, Llanrug.

Y flwyddyn nesaf bydd Tarian ychwanegol i'w chyflwyno, sef Tarian J.V. Evans a gyflwynir am y Sewin trymaf â phlucen o ddwr y clwb. Diolch i Yyrnwy Evans o Bron y Garth, Caernarfon am ei rodd.

Bu'r tymor eog yn eithaf llwyddiannus ar y cyfan, gyda 56 o'r Seiont, 17 o'r Llyfni a 4 o'r Gwyrfa. Ond, gyda'r sewin, siomedig iawn oedd pethau gyda dim ond rhyw ddau ddwsin yn dod o'r Seiont. Mae problem fawr yma ond mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gyndyn iawn o gadarnhau beth yw'r broblem. Dyma fydd un o dargedau'r clwb eleni, sef cael arolwg ac atebion pendant ar beth sydd angen ei wneud i wella'r sefyllfa. Wedi'r cwblw nid yw'r Seiont lawer o filltiroedd o'r Llyfni ac mae'r sewin yno yn dal i fod yn ardderchog, felly mae'n amlwg fod y problemau yn gyfyngedig i'r ardal yma.

Mater arall y bydd rhaid ymdrin ag o eleni yw Ymddiriedolaethau Afonydd, mae rhain yn cael eu sefydlu yn

nifer o ddalgylchoedd afonydd Cymru. Mae nifer ohonom yn bryderus gan fod amheuan cryf fod hyn yn ffordd i wanhau ar annibyniaeth clybiau sydd wedi bod yn gadarn i gadw dyfroedd lleol o fewn perchenogaeth leol. Mae gennyf amheuaeth gryf fod llygedyn o wirionedd yn hyn, oherwydd bob amser yr wyf wedi ymholi a yw'n dderbyniol i'r Gymdeithas fwrw ymlaen i sefydlu Ymddiriedolaeth Afonydd Seiont, Gwyrfa a Llyfni, yr ateb rwy'n ei dderbyn ydi ein bod yn rhy fychan, a ninnau, os nad y Gymdeithas gyda mwyaf o ddyfroedd o dan ein rheolaeth, rydym gyda'r mwyaf o adnoddau yn ein perchenogaeth yng Nghymru. Ond, wrth gwrs, maent i gyd yn cael eu rhedeg gan un corff, sef y clwb lleol.

Mae ymddiriedolaethau, eraill cyn belled ac y gwela, yn cynnwys nifer fawr o glybiau neu syndicates preifat ond gydag un cynrychiolydd ar gyfer y cwblw yn eistedd ar yr Ymddiriedolaeth - dyna i chi ffordd i wanhau cynrychiolaeth. Byddaf yn ceisio, unwaith eto, i



Clifford Thomas, Y Felinheli yn derbyn Tlws Tomi Lovell gan Dr. Robin Parry, Cadeirydd y Gymdeithas

gael arweiniad gan Gymdeithas yr Ymddiriedolwyr ac, os cawn lwc a gwybodaeth pendant, yna efallai!

Pr rhai sydd wedi bod yn dilyn saga Melin y Cim, wel mae'r gwaith bron ar ben. Yndi! Yn ystod Tachwedd 2003 y dechreuwyd y gwaith, ac mae dros bedair blynedd yn hwyr yn cael ei gwblhau, ond mater arall yw hynny. Y newyddion da yw y bydd y lle ar osod ymhen y mis.

Eleni bydd modd i aelodau newydd ymaelodi am y pris

disgownt hyd at 1af Mawrth, wedyn bydd premiwm ar ffi - felly os am gael £45 oddi ar eich tocyn cyntaf, wel dyma'r amser.

HUW PRICE HUGHES

Dyddiadur Evan Jones, Ty'r Mawn

Dyma ni yn dechrau ar flwyddyn arall, sef 1909.

26 Ionawr 1909: Marw Mrs Dora Hughes, Hafod.

5 Chwefror: Brifodd Bob Minffordd ei ben ac ei goes hefo craen, a marw yr un diwrnod.

6 Chwefror: Claddu Robert Hughes, Alerch gynt.

9 Chwefror: Torrodd Abel Thomas ei goes i ffwrdd yn Bonc Pont Ceubran a bu farw ar unwaith. Symudwn ymlaen yn awr i'r flwyddyn 1932.

2 Ionawr 1932: Claddu J. Owen, Victoria Terrace, a hefyd claddu Robert Jones, Weunfawr.

6 Ionawr: Claddu gwraig Griffith Davies, Ty Mawr.

7 Ionawr: Claddu merch May Thomas, Newton Street.

16 Chwefror: Claddu Edward Evans, Glyn.

17 Chwefror: Claddu John Price.

20 Chwefror: Claddu Hugh Lloyd Roberts.

25 Mawrth: Claddu Dr Pritchard.

23 Ebrill: Marw Gethin Williams, Fron Goch, ac hefyd marw modryb Thomas Jones, Snowden Street.

31 Mai: Claddu Richie Jones, Llanrug.

1 Gorffennaf: Marw Ellis Roberts, Pentre Castell.

Medi: Priodi William Jones, Ty Uchaf, Llanrug.

5 Tachwedd: Claddu Henry Hughes, Llainwen.

2 Rhagfyr: Priodi Jack Bach yn Nant Peris.

3 Rhagfyr: Claddu Thomas Roberts, Bryn Padarn, ac hefyd claddu Hugh Parry, Llainwen, wedi ymgrogi yn Chwael Ty Du.

31 Rhagfyr: Claddu Griffith Jones, Llanrug. Hefyd damwain fawr yn Sinc Hafod Wen ar ddydd Mercher, 7 yn cael eu brifo, 2 yn cael eu lladd. John Roberts, Ty Uchaf, Llanrug, Evan A. Williams, Mur Mawr, claddu'r ddau dydd Sadwrn.

R. ELWYN GRIFFITH



Dafydd Spencer o Landudno yn derbyn Tlws W. J. Williams am ddal eog 17pwys yn Llyn Doctor, Llanrug. Cyflwynir y darian iddo gan Gadeirydd y Gymdeithas, Dr. Robin Parry.

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN
 DIESEL PETROL CHWISTRELLIAD ARBENIGWYR
 SKODA
 BMW
 PEUGEOT
 FIAT

•Cymhwyster•
BOSCH
 i roi gwasanaeth i'ch car
 heb effeithio ar
 y warant*
 Dewis arall dibynadwy
 yn lle'r Prif Ddeliwr
*Gyda rhai amodau

Trwsio cerbydau a gwerthu partiau sbâr
 Lle da y gellwch ei fforddio

Stâd Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
 (01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

AVW
 Gwasanaeth i'r Car
 BOSCH Service
 AIR CON GWASANAETH BATRIS
 VOLVO MERCEDES SAAB

MEWNFORIO YR ALMAEN
 UNIONI OLWYNION CAMBELTS TRYDANOL
 SWEDEN

GWYNANT PIERCE

Cynrychion Coed:
 Gatiau, Ffensus ac ati
 am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
 Ffôn: (01286) 674183
 (0589) 899901

YSGOL BRYNREFAIL

Dros dymor y Nadolig bu'r Chweched Dosbarth wrthi'n paratoi a threfnu parti blynyddol ar gyfer disgyblion Ysgol Pendalar. Aeth y myfyrwyr ati'n ddyfal i gasglu arian o bob pentref yn yr ardal a hael iawn fu ymateb y busnesau a'r trigolion unwaith eto eleni. Cynhaliwyd hefyd nifer o weithgareddau i godi arian, megis canu carolau, gwerthu cacennau a gêm bêl-droed rhwng y Chweched Dosbarth a'r Staff.

Ddiwrnod y parti, roedd pawb o'r Chweched Dosbarth ynghlwm â'r bwrlwm, yn brys yn coginio, yn addurno'r neuadd, neu'n helpu Siôn Corn gyda'r holl anrhegion. Erbyn y prynhawn roedd y neuadd a'r ffreutur wedi'u trawsnewid yn llwyr! Cafwyd gwestai arbennig hefyd i ddiddori'r plant sef Mr Edward Morris Jones, ac roedd hi'n amlwg fod pawb wedi mwynhau'r adloniant a'r cydganu a ddigwyddodd dan ei arweiniad. Rydym yn hynod ddiolchgar iddo am ei barodrwydd i ymuno yn yr hwyl eleni.

Ar ôl y canu a'r dawnsio roedd hi'n amser symud i'r ffreutur i fwynhau'r wledd. Mwynhawyd yr arlwy gan bawb,

yn sicr roedd rhywbeth ar gael at ddant pawb. Wedi i pawb fwyta llond eu boliau, i orffen y prynhawn, cafwyd un ymwelydd arall o bwys, ie, Siôn Corn, gyda llond sach o anrhegion gwerth eu cael i bob un o'r plant.

Hoffem ddiolch unwaith yn rhagor i bawb a gyfrannodd at y digwyddiad hynod bwysig yng nghalendr y flwyddyn yn Ysgol Brynrefail ac Ysgol Pendalar. Isod rhestrir enwau'r cwmnïau hael:

Llanberis: Côr Meibion Dyffryn Peris

Cwm-y-Glo: Snowdon Inn, Dragon Motors, London Garage, Becws Morris, Oriel Cwm.

Penisarwaun: Dic Parry, Meical Jones (adeiladwr), Chimneyline, Peintwyr E+L Jones, William Lewis (saer coed), Cartre'r Henoed.

Llanrug: Arvonnia, Siop Chips Tegfan, Glyntwrog, Cerrig Beddi, Post, Tacsis Ken.

Waunfawr: Siop Waun, Geraint Owen Carpedi, Garej Skoda.

Bethel: Y Bedol, David Roberts, Trigolion Bethel (drwy brynu cacennau yn Eisteddfod Bentref Bethel).

Caernarfon a Bangor: Round Table, Seren Arian

Tŷ GOBAITH



Katrina Cameron, trefnydd apeliadau Tŷ Gobaith yn derbyn sic am £125.00 gan Iwan Williams, dirprwy prif fachgen yr ysgol, gyda chynrychiolwyr o'r 6ed dosbarth, Gerallt Bryn Roberts, Ffion Eleri, Sara Jones, Bethan Williams, Christy Roberts a Lois Angharad.

CYMORTH CRISTNOGOL



Ann Jane Evans, gweithiwr maes Cymorth Cristnogol yn derbyn sic am £125.00 gan Iwan Williams, dirprwy prif fachgen yr ysgol, gyda chynrychiolwyr o'r 6ed dosbarth, Sara Jones, Ffion Eleri, Elliw Sharp a Rhian George.

Sylwadau rhai o blant Bl 8 ar 'Hei Hogia'

Chelsea - Ar dydd Mawrth aethom ni i'r neuadd ac sylwi bod yna actorion yna ac 6 llyfr, tair Saesneg a tair Cymraeg ac roedd nhw yn actio darn bach o'r llyfr. Holl bwrlpas o fynd yna oedd i nhw ddangos ac actio rhannau o'r llyfrau i ni cael nol nhw ac i ddarllen nhw wedyn. Fy hoff lyfr oedd *isho bet?* oherwydd bod o yn dangos be mae rhai pobl yn gwneud i ddifysu eu hunain.

Kelsey - Ar ddydd Mawrth 15 o Ragfyr daeth cwmni Hei Hogia i ysgol Brynrefail. Roedd tri actor yn actio darnau o 6 llyfr, tri Saesneg a tri Cymraeg. Y 3 llyfr Cymraeg oedd *isho bet?*, *Tyllau a Creadyn*. *Isho bet* oedd y llyfr mwyaf ddiddorol, hanes dau o fechgyn yn betio am bob dim. Roedd un bachgen wedi betio £5 i roi sws mawr i hen ddynes, Deal! Roedd y bachgen arall wedi cytuno yn gyflym. Roedd y llyfr yma yn arbennig!!

Amy - Dydd Mawrth yr unfed ar bymtheg daeth cwmni 'Hei Hogia' i'n hysgol ni i berfformio darnau allan o lyfrau. Cawsom glywed am 6 llyfr, 3 Saesneg a 3 Cymraeg. Enwau'r llyfrau Cymraeg oedd *isho bet?*, *Tyllau a Creadyn*. Mae'r actorion yn dda ag roedd y actorion yn gwneud i'r stori deimlo'n wir. Allan o ddeg dwi'n rhoi 9fi iddo.

Jasmin - Dydd Mawrth Rhagfyr

16fed fe aethom ni i'r neuadd i wrando ar tri o bobl yn darllen chwech o wahanol storïau. Fy hoff lyfr oedd *isho bet?* oherwydd roeddent yn dod a'r stori yn fyw, a roedd y cymeriadau yn gallu actio'r stori yn dda. Roedd rhai darnau yn ddoniol. Mi wnes i fwynhau y diwrnod yn fawr iawn rwyf am dro darllen y llyfrau yn fuan.

Luc - Dydd Mawrth aeth pawb ym Mlwyddyn 8 i'r neuadd. Roedd actorion yn dwad i hybu llyfrau, y llyfrau oedd *isho bet?*, *Tyllau a Creadyn*. Yr un fyswn i yn dewis yw *isho bet?* am ei fod o yn ddoniol ac roedden nhw yn actio yn dda ac yn dewis y rhannau doniol.

Y Clwb Cant

Enillwyr Clwb Cant yr ysgol am fisoedd olaf 2008 oedd:

Hydref: £31.50: (1) Eifion Jones, d/o Ysgol Brynrefail; £18.90: (29) Malcolm Jones, Bryn Dwynwen, Pontrug; £12.60: (55) Mrs L. Jones, 1 Afon Rhos, Llanrug.

Tachwedd: £31.50: (121) Mrs H.M. Parry, Llys Helyg, Bethel; £18.90: (121) Mrs M. Coles, Maes yr Haf, Bethel; £12.60: (112) Mari Rowlands, Tan y Marian, Waunfawr.

Rhagfyr: £31.50: (175) Mrs E. Pleming, Cartrefle, Bryn Moelwyn, Llanrug; £18.90: (27) Wendy James, Llwyn, Rhes Faenol, Deiniolen; £12.60: (20) Kathy Bell, Ty Newydd, Bethel.




Edward Morris Jones yn diddanu.



Disgyblion Pendalar a'r Chweched Dosbarth yn ymuno yn yr hwyl.

DYMCHWEL YR HEN GWT BAND



Ysgol Ganol Llanrug ar ôl 1935

(Cefn): Cecil ?, Hughie Jones, Evan ?, Meirion Williams, Joe Roberts
(Ail res): Elwyn Jones, Gwilym Williams, Irene ?, Winnie Williams, Jean Pritchard, Cassie Daniels, Wil Jones, Elfed ?, Athro Mr Owen.
(Blaen): Glenys Morris, Gladys ?, Gertie Owen, Marion Ffoulkes, Dilys Jones, Jenny Robinson, Dilys Jones.

Diolch i Mrs Gertie Kirkpatrick, Hafan Elan, am y lluniau a'r cof da!

Ysgol Ganol Llanrug 1935

(Cefn): Bertie Owen, Gronwy Davies, Tom Griffiths, Ned Green, Elfed Jones. (Ail res): Gertie Owen, Laura Hughes, Glenys Morris, Betty Griffiths, Winnie Williams, Betty Jones, Marion Ffoulkes, Catherine Owen. (Trydydd rhes): Rasmus Williams, Evan Evans, Cledwyn Jones, Jim Land, Rhys Williams. (Blaen): Will Jones, Joe Roberts, Hughie Jones, Meirion Williams, Henry Williams, Elwyn Jones, Griff Evans, Cledwyn Jones.

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

— yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfinedig drwy Warant 3420271

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwyh

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr wyn lleol mwyaf blasus,

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ

Ffôn: (01286) 650834

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor 7.30 – 6.30

8.00 – 6.00 (Sadwrn)

9.00 – 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswariant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

COFIO EIRLYS - COLLI FFRIND



Hi oedd fy ffrind go iawn cynta. Cofiaf fel ddod y darlun o'r ferch seithmlwydd oed drawiadol o dlws, yn cael ei dewis gan yr athro i dywys yr hogan newydd drwsgwl, oedd heb arfer gyda phot inc na phin dur, i'r clocrwm i olchi'r stomp oddi ar ei dwylo, a'r ddwy ohonom yn chwerthin wrth wyllo'r dŵr budur yn diflannu drwy'r twll ar waelod y sinc.

Chwerthin fu ein hanes wedyn drwy gydol ein hamser yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Chwerthin wrth bigo ein bysedd hyd at y gwaed yn y gwersi gwnio er mwyn cael csgus i fynd i'r clocrwm unwaith eto i olchi ein dwylo; chwerthin pan landiai'r rybyrs yn ddirugaredd ar fy nesg, a deuent o gyfeiriad Eirlys oedd wedi cael ei halltudio'n ddigon pell oddi wrthyf i bellafion yr Ystafell Ddaeryddiaeth; chwerthin wrth bryfocio'r athro Ysgrythur drwy hepgor nifer sylweddol o adnodau o'r penodau dibendraw y byddai'n rhaid inni eu darllen allan yn y dosbarth tra roedd yntau'n myfyrio ar y cread drwy'r ffenest; chwerthin gan adael cynulleidfia steddfod yr ysgol yn rhythu ar lwyfan gwag wedi inni ddirflannu oddi arno'n ddisymwth gan ein bod wedi anghofio geiriau ein deuaud a ninnau erbyn hyn yn aelodau parchus o'r chweched!

Treulicm ein hafau 'hirclyntesog' yn cael hwyl yn un o westai Llandudno wrth weini ar ymwelwyr a ddeuai dros y ffin i fwynhau awyr iach y môr a'r mynydd. 'Upstairs' a 'downstairs' oedd y drefn, a ni oedd trigolion y seler, lle digon cyfforddus gan mai yno yr oedd y pantri bwyd, ac Eirlys fel y gweddill o'r genod wedi dod yn gambliar ar sleifio yno i fachu ambell sgram. Caem ninnau amser rhydd o bryd i'w gilydd i fwynhau bwrlwm a phrysurbwyl y dref. Daeth Eirlys

â chlod ac anrhydedd i'n gwesty ni un prynhawn drwy gipio Tlws Pencampwriaeth Gweinyddesau Llandudno am frasgamu ar hyd y prom yn cario tre o shieri heb golli'r un diferyn! Uchafbwynt bob haf fyddai mynd ar wyliau ein hunain i wario'n henillion ac ymwelwyd â mannau 'diddorol' megis Blackpool. Cafwyd un daith fws hirfaith o Lundain i'r Eidal, i'r 'resort' hudolus hwnnw yn yr haul - Lido de Jesolo. Sôn am sbort.

'Penterfyn' oedd pencadlys Eirlys. Fanno oedd mam a dad a Nain yn byw, y bobol bwysig yn ei bywyd - ynghyd â nain Seion, wrth gwrs. Roedd Eirlys hithau'n ganolbwynt eu bywydau hwy ac yn gannwyll eu llygaid. Cawn fynd yno bob hyn a hyn i chwarae cfo Eirlys, galw nain yn nain a phrofi croeso, cariad a charedigrwydd nodedig yr aelwyd. Doedd neb gwell na Gaynor am ferwi wy a'r melynwy'n llifo dros y plisgyn wrth ichi wthio'r 'soldiwr' gwyn i'w grombil.

Roedd dewis Eirlys o gymar wedi plesio Gaynor, Myrddin a Nain yn fawr iawn, a phan ymgartrefodd y ddau yn 'Swyn yr Awel' ar gyron 'Penterfyn' roedd eu cwpan yn llawn. Ymdoddodd Ian i fywyd y teulu, a fuo na ddim dogni ar gariad na charedigrwydd o'r naill ochr na'r llall. Cafodd Eirlys ŵr annwyl a chywir a bu'n hynod o ffyddlon iddi hyd y diwedd.

Fucs i rioed yn gyd-fyfrwraig nac yn gyd-weithwraig gydag Eirlys, ond gwn ei bod yn athrawes o'i chorun i'w sawdl. Wedi iddi gymhwyso yn y coleg ym Mangor, bu Ysgol Dolbadarn Llanberis yn ddigon ffodus i sicrhau ei gwasanaeth am 30 o flynyddoedd. Roedd yn hoff iawn o blant a doedd dim pall ar ei hamynedd. I Eirlys roedd gan bob plentyn ei anghenion

arbennig beth bynnag fo'i allu ac ni fyddai'n brin o ddiwallu'r anghenion hynny. Y dileit mwya, wrth gwrs, oedd cerddoriaeth a defnyddiodd ei dawn gerddorol i hyfforddi plant a chyfansoddi caneuon ar eu cyfer. Y ddwy mwyaf cofiadwy yw 'Titw Tomos' a anfarwolwyd gan Hogia'r Wyddfa a'r garol 'Ganwyd Iesu' a gyhoeddwyd yn *Caneuon Ffydd*.

Bywyd llawn ac egniol fu bywyd Eirlys - dilyn ei diddordebau hyd yr eithaf boed yn gerdded, nofio, gwneud yoga neu sgio. Roedd wrth ei bodd yn cymdeithasu ac yn cadw cysylltiad clos â'i ffrindiau drwy gyfarfod i siopa neu am bryd o fwyd, cerdded neu sgwrsio, a'r teclyn tecstio'n brysur iawn yn trefnu'r cyfan. Roedd yn ffrind ffyddlon, ffeind a 'hawdd i'w chael mewn cyfyngder'. Roedd ei charedigrwydd tuag at blant ei chydabod, a'i diddordeb yn eu hynt a'u helynt yn arbennig, a'r caredigrwydd hwnnw yn ei dro yn cael ei ymestyn i'r wyrion. Y gorchwyl olaf un gyflawnodd Eirlys yng nghanol ei gwaeledd cyn y Nadolig oedd gofalu am anrheg pwrpasol ar gyfer pob un ohonynt.

O ddechrau 2006 ymlaen bu Eirlys yn brwydro yn erbyn cancer yr ofari, a gwnaeth hynny gyda dewrder a gwen. Fuo na ddim cwyno na chwerwi, a doedd wiw sôn am y salwch. Doedd gwastraffu amser ddim ar yr agenda a'r penderfyniad i fyw bywyd normal yn hollol glir.

Roedd yr hyn a gyflawnodd yn y cyfnod hwn yn anhygoel. Llwyddodd i ail afael yn ei holl diddordebau, a llwyddodd unwaith eto i gyrraedd copa'r Wyddfa, yn llythrennol a ffigyrol. Cododd dros £10,000 tuag at Gronfa Canser Gynaecolegol yn Ysbyty Gwynedd drwy weithgareddau megis cerdded llwybrau arfordirol Ynys Môn a chyhoeddi a gwerthu cardiau Nadolig.

Roedd yr 'owtings' yn bwysig iawn yn y dyddiadur ac yn achlysuron i edrych ymlaen atynt. Yr un ola a gawsom, rhyw 8 wythnos cyn iddi farw, oedd i ddathlu fy mhen-blwydd. Mynnodd fy shoffro fel cwin i Landudno - coffi 'en route' mewn gwesty yn Neganwy, siopa yn 'Marks', cinio yn y St Tudno a sgwrsio diddiwedd, a'r cyfan yn nodweddiadol o Eirlys, wedi ei drefnu'n berffaith. Roedd profiadau yn bwysicach na phresantau i Eirlys - a byddaf yn trysori'r profiad yma am byth.

Treuliodd Eirlys ei hwythnos olaf, yn ôl ei dymuniad, yn ei chartref yng nghwmni Ian a'i ffrindiau agosaf. Gadawodd ni'n dawel ac urddasol ar Ragfyr 12fed gyda diwrnod ei hangladd, yn nodweddiadol, wedi'i drefnu'n drylwyr ganddi. Roedd y gwasanaeth yn Llanberis yn deilwng iawn ohoni, a'r niferoedd ddaeth ynghyd, a'r arian a gasglwyd er cof amdani, yn dyst i'w phoblogrwydd. Rhoddwyd hi i orffwys o fewn ei milltir sgwâr ym Mynwent Llanrug.

Mi ddo i draw efo'r blodyn cynta cyn bo hir, Eirlys.

OLWEN

NOSON I WARBI

THEATR SEILO, CAERNARFON

Sadwrn 31ain Ionawr 2009, am 7.30pm

GARETH OWEN yn cyflwyno **JOHN EIFION, HOGIA'R WYDDFA, DYLAN A NEIL, PIANTEL, GARI JONES, HOWARD HUGHES, SARAH LOUISE, MONTRE, Cyfeilydd ANNETTE BRYN PARRY**

Tocynnau £10.00. Yr elw i gyd tuag at

"The Warburton Trust"

Tocynnau: Siop Na Nog, Caernarfon; Awen Menai, Porthaethwy; Megan Williams 01286 674013; Brian Richardson 01286 675446;

Gareth Jones 01286 650812

NOSON I'W CHOFIO

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

NODYN PWYSIG. Er mwyn lleihau amseroedd aros rydym wedi penderfynu newid i system apwyntiadau yn Meddygfa Llanrug.

Byddwn yn treialu hyn, gan ddechrau ar 5 Ionawr 2009.

Hoffem i chi drefnu'r apwyntiad drwy Feddygfa Llanrug ond deallwn na fydd hyn bob amser yn bosibl.

Diolch

DRS ROBERTS, LLWYD, JONES A GWILYM, MEDDYGFA LLANRUG LLONGYFARCHIADAU i Meilir Gwynedd a Lynnsey Coull o Bontnewydd ar eu dyweddiad yn Efrog Newydd ar ddydd Nadolig. Pob dymuniad da i'r ddau oddi wrth y ddau deulu a'u ffrindiau i gyd. **CLWB 300.** Enillwyr y Clwb am fis Rhagfyr oedd £30: Mr R.H. Jones, Llechwedd; £20: Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart; £10: Mr G.W.O. Coles, 6 Bro Waun. **SEFYDLIAD Y MERCHED.** Yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr y gŵr gwadd oedd Dr H.L. Roberts. Cafwyd pnawn diddorol iawn yn ei gwmni yn dangos lluniau o olygfeydd lleol. Yn absenoldeb y Cadeirydd, diolchodd Mrs Anne Williams i Dr Roberts.

Ar 16 Ionawr aeth 12 o'r aelodau i'r Clwb Golff yng Nghaernafon i fwynhau pryd o fwyd arbennig iawn. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr a rhannwyd anrhegion ymysg ein gilydd. Diolchodd Catherine Jones, y Llywydd, i Mrs Pat Parry am drefnu'r cyfarfod. Bydd y cyfarfod nesaf ar 5 Chwefror ac mae croeso i aelodau newydd ymuno â ni.

LLONGYFARCHIADAU a phob dymuniad da i'r dyfodol i Sara Lloyd Williams, Gwastadfaes, a fu'n dathlu cyrracdd ci dcunaw oed yn ystod mis Rhagfyr.

LLONGYFARCHIADAU i blant yr Ysgol Sul am ddysgu a gwneud eu gwaith mor dda yn eu Gwasanaeth Nadolig.

DYWEDDIAD. Dymunwn longyfarch a dymuno'n dda i Gwenno Owen, Glyn Awel, ar ei dyweddiad ag Iwan Rhys Parry, Llanrug.

Yr un yw ein cyfarchion a'n dymuniadau da i Meilir Gwynedd, Nant, ar ei ddyweddiad â Lynnsey Coull o Bontnewydd.

PRIODAS. Dymunwn bob hapusrwydd i Wendy, Tal-y-Foel, ar ei phriodas â Hugh o Lanrwst. Priodwyd y ddau yng Nghastell Gwydir ychydig ddyddiau cyn y Nadolig.

BABIS NEWYDD.

Llongyfarchiadau i Elcri a Jason Anderson, Fron Deg, ar enedigaeth mab bychan, Gruffydd Siôn, brawd bach i

Morgan a Jamie. Llongyfarchiadau i Evelyn Anderson, Trem Arfon, ar ddod yn nain i dri w^yr bach yn awr.

Merch fach, Mirain, a anwyd i Mererid ac Erddin Llwyd, Is-Eilian, chwaer fach i Gruffydd. Llongyfarchiadau i chwi hefyd a phob dymuniad da i'r teuluoedd.

Daeth Valmai ac Alwyn Williams, Garreg Fawr, yn nain a thaid i Tesni, merch fach i Iona ac Emlyn ym Mhenygroes, chwaer fach Non. Er fod Tesni yn naw mis oed erbyn hyn estynnwn ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau ichi. **BEDYDD.** Fore Sul, 21 Rhagfyr, gyda'r Parchedig Ddoctor Elwyn Richards yn gweinyddu a Mrs Catherine Jones wrth yr organ, bedyddiwyd Cai Osian, mab bach Delyth a Mark, a brawd bach Beca, Cysgod y Foel.

SALWCH. Cyn y Nadolig cafodd amryw o drigolion y pentref eu taro gan fflw ac anwyd mawr. Cymerwyd Mrs Pearl Williams, Parc, a Mrs Grace Dawson, Stad Tref Eilian, i'r ysbyty oherwydd y salwch ond da cael dweud eu bod adref erbyn hyn a'u bod hwy a'r rhai eraill a fu'n sâl yn eu cartrefi yn gwell.

Croeso adref o'r ysbyty hefyd i Mr Bert Smith, Stad Tref Eilian, a Mr David Greasley, Min Afon, sydd wedi cael triniaeth i'w benglin.

Cymerwyd Mrs Betty Griffith, Gorffwsfa, i'r ysbyty yn Lerpwl ychydig ddyddiau cyn y Nadolig. Cafodd ddod i gryfhau i Ysbyty Eryri ac, erbyn hyn, mae wedi cael dod adref i Gorffwsfa.

Anfonwn ein cofion cynhesaf atoch i gyd gan obeithio y byddwch yn dal i gryfhau a gwell.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mr Eifion Williams, Stad Tref Eilian; Mr Bob Legget, Arwel, a Mr Elfed Roberts, Dwyrws, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Anfonwn ein cofion hefyd at Mr Bil Lewis, Stad Tref Eilian gynt, sydd wedi mynd i aros i Gartref Nyrsio Plas y Bryn, Bontnewydd.

CYDYMDEIMLO. Dacth dwy brofedigaeth i ran Mr Aled Williams a theulu Maesteg. Bu farw brawd Mr Williams yn ddiweddar, John Danwyn, ac yna bu farw Doctor Tom Ellis o Benygroes, a oedd yn frawd yng nghyfraith iddo. Roedd gan y Doctor Tom Ellis gysylltiad agos â phentref Y Waun, wedi byw yn Bryn Eirion ac Angorfa.

Daeth y brofedigaeth o golli chwac i ran Mr Wilf Jones a theulu Treflys. Cydymdeimlwn â chwithau yn eich colled.

Profedigaeth o golli nain



Plant yr Ysgol Sul

ddaeth i ran Rhiannon Williams a theulu Gwylfa. Cydymdeimlwn yn ddwys a chwi oll yn eich colled drist.

DIOLCH. Dymuna Pearl Williams, Parc, ddiolch i'w theulu a ffrindiau am y caredigrwydd, y galwadau ffôn, y galwadau a chardiau, gartref a thra bu yn Ysbyty Bangor. Diolch hefyd i bawb ym Meddygfa Waunfawr.

DIOLCH. Dymuna Jane E.

Roberts, Glaslyn, Bro Waun, ddiolch o galon i'w ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, arian a'r blodau hardd ac am yr holl gardiau hardd hefyd. Diolch i Rol Williams hefyd am y penillion a ysgrifennodd iddi. Diolch yn fawr iawn.

DYMUNWN adferiad iechyd buan i Rhian Ellis, Ty'n Llidiart, wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

COFION Mae nifer yn ein mysg yn dioddef anhwylderau ar ddechrau blwyddyn newydd. Anfonwn ein cofion at Helen Maud ac Arthur Jones, 5 Trem Eilian. Nid yw Helen yn dda ei hiechyd y dyddiau hyn a dymunwn adferiad buan i Arthur yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd cyn bo hir.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD
G W A S A N A E T H A U ARBENNIG

Nos Sul, Rhagfyr 14eg, cynhaliwyd oedfa dan nawdd yr aelodau. Roedd y rhannau arweiniol dan ofal Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones. Cymerwyd rhan hefyd mewn darlleniadau a gweddiau gan Bertie Roberts a Jennie Angharad Roberts, ynghyd â chyflwyniad ar emynau a chyfansoddiadau cerddorol Cymuned Taize gan Lowri Roberts Williams. Mabwysiadwyd un o'r cyfansoddiadau i'w chanu yn ein gwasanaethau.

Talwyd teyrnged i'r diweddar Emyr Williams, 1 Bron Helen, Clwt y bont, ar derfyn yr oedfa gan Lywydd y mis, Mr Bertie Roberts. Roedd ci ymadawiad brawychus o sydyn wedi ein tristau a ninnau wedi ein hamddifadu o'i gyfraniad yn yr oedfa arbennig hon. Cynhaliwyd yr Angladd yn Amlosgfa Bangor, gyda'r Parch John Pritchard yn gwasanaethu. Rhoddwyd y deyrnged gan y Parch Harri Owain Jones, Llanfairpwll. Bu Emyr yn nodedig o ffyddlon i'r oedfaon ar hyd y blynyddoedd ers symud i Frynrefail o'r Ysgoldy lle'r etholwyd ef yn flaenor yn 1960. Bu'n raenus a phwrpasol ci gyfraniad i Wasanaethau'r Aelodau a'r Gymdeithas, fel ag y bu ei

ymroddiad i'w waith beunyddiol dros y blynyddoedd fel argraffydd, cyn ymddeol o Wasg Pantycelyn ar derfyn ei yrfa. Rhoddir coffad arbennig iddo ar ran yr Eglwys gan y Parch Harri Parri yng nghyfarfyddiad o Henaduriaeth Arfon a gynhelir yng Ngharmel bnawn Mawrth, Chwefror 3ydd.

Bnawn Sul, Rhagfyr 21ain, daeth nifer rhagorol o'r aelodau ynghyd, gyda'r plant a'r ieuenctid yn eu mysg, i oedfa i ddathlu Gw^yl y Geni. Roedd y gwasanaeth dan arweiniad y Parch Harri Parri, Caernarfon, a chafwyd oedfa arbennig iawn yn ei gwmni gyda'i neges dreiddgar i bob oed a phawb yn ymuno yn hwyliog a brwdfrydig yn y carolau. Ar derfyn yr oedfa ymlwybrodd pawb o'r Ystafell Gynhadledd i Gaffi Caban, lle roedd lluniaeth flasus wedi ei baratoi ar ein cyfer. Mae ein diolch yn wresog i staff Caban am yr arlwy. Mwynhaodd y gynulleidfa orig hyfryd o gymdeithasu cyn dymuno Nadolig Llawen i'w gilydd ac anfon cofion dros yr W^yl at bawb fu'n analluog i ymuno.

Nos Sul, Ionawr 11eg, cawsom y cyfle unwaith yn rhagor i estyn croeso i'r Parch Harri Parri i wasanaethu yn yr oedfa. Roedd ei neges wedi ei sylfaenu ar Swper yr Arglwydd. Gweinyddwyd y Sacrament i bawb o'r aelodau.

Oedfaon mis Chwefror

1: am 2.00 Parch John Pritchard, Llanberis

8: am 2.00 Parch Gwynfor Williams, Caernarfon

22: am 5.30 Parch John Owen, Bethesda

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Blwyddyn Newydd Dda a llewyrchus i bawb ohonoch.

GENEDIGAETH. Croeso mawr i Gethin Emyr, mab bychan a anwyd i Emyr a Katie Williams, brawd bach i Enlli ac Ioan ac w[^]yr bach i Eiriona a Ieuan.

GWELLHAD. 'Wyt Ionawr yn oer a'th farrug yn wyn' fu cychwyn 2009, gan beri pob math o salwch i nifer. Gobeithio fod pawb yn gwella ac yn swatio'n gynnes yn y ty[^]!

YSGOL SUL BOSRA. Er gwaetha'r tywydd garw braf oedd cael cwmni nifer dda o'r plant ar fore Sul, 11 Ionawr. Roedd Siôn Corn wedi bod yn hynod o garedig wrth bob un ohonynt.

Bu'r Trip ar y trê yn Llanberis yn hynod o lwyddiannus a diolch i Fiona am wneud y trefniadau.

APEL ADNEWYDDU'R CAPEL.

Dymuna aelodau'r Pwyllgor ddiolch i'r pentref a'r fro am bob cefnogaeth yn ystod 12008. Gwethfawrogir hyn yn fawr a bydd y gwaith o ail-doi a gosod ffenestri dwbl ar y gweill yn fuan iawn.

Y mae 'Calendr 2009' yn mynd o gwmpas gan yr aelodau, pryd y gellir prynu diwrnod arbennig o'r Calendr am £1. Hyderir y gwerthir y 365 diwrnod er mwyn casglu arian i gynhesu'r capel maes o law.

Diolch hefyd i bawb a gefnogodd y Noson Goffi cyn y Nadolig.

CYDYMDEIMLO. Ar Ragfyr 7fed, yn dawel yn ei gartref, Y Gors, yn 84 mlwydd oed, bu farw y llenor, John Ellis Williams, priod a thad ffyddlon. Dymuna Joan Rees a Siôn Rees ddiolch o galon am y gefnogaeth a phob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt. Diolch am yr holl roddion tuag at Feddygfa Llanrug.

Yn frawychus o sydyn ac yn dawel yn ei gwsg yn ei gartref, Weirglodd Goch, bu farw Gwilym Owen Roberts, (Gwilym Blaen Cae, Gwilym Llefrith, Gwilym Castell) fel yr adnabyddid ef gan

nifer. Priod ffyddlon a ffrind gorau i'w briod, Gwenllian, tad addfwyn a gofalus Eleri, Glyn a Delyth, tad yng nghyfraith Glyn, Ruth a Martin, taid balch ei wyrion a'i wyresau a hen daid hoffus Eiddon a Fflur.

Ein cydymdeimlad llwyrfa i chi oll fel teulu.

Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf hefyd i Tudur Huws Jones, Anna Marie a Magi a Moi a'r teulu oll o golli mam Tudur ac Emyr a'r ddiweddar Gwenda, a nain addfwyn, sef Mrs Megan Sioned Jones oedd yn 92 mlwydd oed o Gorffwysfa, Llangefni.

PWYLLGOR NEUADD. Dymuna'r Pwyllgor ddatgan eu diolchgarwch am eich cefnogaeth i'r gweithgareddau a'r Clwb Cant yn 2008. Mae'n amser adnewyddu'r Clwb Cant rwan neu mae'n bosibl talu drwy Archeb Banc. Buasem yn hynod falch o gael aelodau newydd gan fod angen casglu o gwmpas £1,000 bob blwyddyn tuag at gynnal y rhan gymunedol o'r neuadd. Y mae cynnal Clwb Cant yn ffordd dda o gael swm o arian yn fisol.

Mwynhawyd Noson Wasael gyfeillgar a soniarus yn y Neuadd nos Fercher, 17 Rhagfyr. Mawr yw ein diolch unwaith yn rhagor i blant yr Ysgol am eu datganiad clodwiw o'r Carolau: Santa Lucia, Bethlem Dref a Ffoi. Diolch i'r Pennaeth a'r athrawon am eu cydweithrediad arferol. Swynwyd pawb gyda chanu Parti'r Waun, gyda 'Cofio Crist' gan John Eifion, deuawd 'Cwsg fy Maban' gan Lois ac Anest a'r triawd yn canu 'Iesu Waredwr' gyda Jenni Lyn ar y corn.

Bu cyfraniad aelodau Band Deiniolen yn hwb sylweddol i'r canu a diolch iddynt am fod mor barod i'n helpu bob amser.

Wedi'r canu mwynhawyd Pwnsh poeth a mins pei cyn cychwyn ar yr Ocsiwn Addewidion. Gan fod gennym Ocsiwniar profiadol bellach, sef Eifion Harding, llwyddwyd i werthu pob eitem gan sicrhau

swm ardderchog i'r coffrau. Diolchir i Eifion am ei gydweithrediad bob tro yr awn ar ei ofyn.

Nos Lun, 19 Ionawr, cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol am 7.00 o'r gloch yn yr Ystafell Gymuned. Cadarnhawyd cofnodion 2008. Yn dilyn y cyfarfod cynhaliwyd Pwyllgor Rheoli'r Neuadd.

Cydymdeimlwyd â Tudur Huws Jones a'r teulu, llongyfarchwyd Dafydd Du, Dilwyn Green, David Brailsford a Brigyn ar ddod i'r brig yn eu pencampwriaethau. Llongyfarchwyd Phyllis, y Cadeirydd ar achlysur pen-blwydd arbennig ar 20 Ionawr.

Gan bod nifer aelodau'r Clwb Cant wedi lleihau cytunwyd i ddileu dros dro y drydedd gwobr. Bydd hyn yn hwb i gyrraedd y nod o dros £1,000 y flwyddyn am y dreth. Tynnwyd Clwb Cant Ionawr a'r ddau enillydd oedd Stephen Walker, Brynrefail, ac Ann Ifans, Sycharth.

Buasem yn hynod falch o aelodau newydd i'r Clwb Cant - 50c y mis neu £6 y flwyddyn, neu fe ellir talu drwy ffurflen Archeb Banc.

Ein gweithgareddau pellach i godi arian fydd

- 'Miri Pasg' ar nos Fercher, 1 Gorffennaf am 6.00 o'r gloch;
- 'Miri Mai' dydd Iau, 21 Mai;
- 'Ras Peli' ar 16 Gorffennaf.

Gobeithiwn y cawn eich cefnogaeth arferol eto eleni.

PEN-BLWYDDI ARBENNIG. Penblwydd Hapus arbennig iawn i Phyllis, Rhos Fair, ar 20 Ionawr a diolch iddi am ei holl waith caled gyda phob agwedd o fywyd y pentref hwn, y Gymuned a'r fro. Penblwydd Hapus hefyd i Ann, Sycharth ar ei phen-blwydd arbennig hithau ar yr un dyddiad. **YR YSGOL GYMUNED.**

Croesawyd pawb yn ôl i'r ysgol dydd Mawrth, 6 Ionawr, ar ôl mwynhau pythefnos o wyliau dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd.

Gwersi Nofio: Bydd plant CA2 yn parhau i dderbyn gwersi nofio yn y Ganolfan hamdden ar fore dydd Iau.

Yr Urdd: Cynhelir cyfarfodydd yr Urdd bob yn ail nos Lun, rhwng

3.15 a 4.15 o'r gloch. Dyma'r gweithgareddau a gynhaliwyd y tymor diwethaf:

Nos Lun, 3 Tach: Mwynhawyd gêm o Bingo i ddechrau'r gweithgareddau am y tymor.

Nos Lun, 17 Tach: Daeth Swyddog o'r Orsaf Dân yng Nghaernarfon draw i roi sgwrs am y peryglon gyda than.

Nos Lun, 1 Rhag: Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Gwen Thomas o'r RSPB yn ymwneud â gwahanol fathau o adar.

Nos Lun, 15 Rhag: Daeth Gwenllian o'r Gwasanaeth Ailgylchu draw i egluro'r ffordd mae'r system ailgylchu yn gweithio.

Tymor y Gwanwyn, Nos Lun, 19 Ionawr: Cafodd y plant hwyl yn chwarae amryw o chwaraeon gyda Catrin o Swyddfa'r Urdd.

Bydd yr aelodau yn brysur yn ymarfer ar gyfer cystadlaethau Eisteddfod yr Urdd hyd at hanner tymor, ac yna byddwn yn ailddechrau gyda gweithgareddau amrywiol bob yn ail wythnos.

Diolch i bawb am roi o'u hamser i gynnal y gweithgareddau uchod.

Myfyrwyr Coleg Menai: Diolchwn i Rachel Hanks am ei chymorth gyda dosbarth y Babanod a dymunwn y gorau iddi gyda gweddill ei chwrs. Yn yr un modd croesawn Stephanie Welsby atom, bydd hithau yn rhoi cymorth yn yr un dosbarth hyd at fis Mai.

CRONFA PENSIYNWYR. Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Rhagfyr oedd Mrs Kate Rosser, 5 Llys y Gwynt gyda rhif 5. Llongyfarchiadau.

DIOLCH. Dymuna Avril a Geraint, Careb, 8 Bryn Eglwys ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem. Diolch i Dylan, Sioned, Rhian a Ceirion a'r teulu am eu caredigrwydd mawr.

Dymuna Phyllis ac Ann ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion ar ddathliad eu pen-blwyddi arbennig ar 20 Ionawr.

Cefnogwch ein hysbysebwy

SNOWDONIA PARK

WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant

• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol

• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: (01286) 650218

Dylan Griffith

Trefnwr Ângladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Yn Gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys-
PENISARWAUN • DEINIOLLEN • LLANRUG A LLANBERIS

Ffoniwch Dylan (Llys) ar 871833

Symudol-07778127394

Gwasanaeth Teimladwy
Urddasol a Phersonol
24 awr y dydd
Capel Gorffwys Preifet

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR CYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

'Pwy rydd i lawr ŵyr mawr' ein Bro



Dilwyn Green hefo Silkia a'u cwpanau.



Dafydd Du, Pencampwr Cyntaf Mastermind Cymru.



Brigyn, sef Eurig ac Ynyr, ar y brig hefo 'Haleliwia'.

HALELIWIA! 'Daw awr i ninnau ganu Haleliwia!' Dyna yw ein cri yma ym Mhenisarwaun ac ym Mro'r Eco. Daeth clodydd mawr i ran pump o hogia sydd â chysylltiadau â'n pentre ni, ysgolion Cynradd y fro ac Ysgol Uwchradd Brynrefail.

'Sgubodd Dilwyn Green a'i dad, Aled Green, wobrau lu gyda'u icir 'Large White Silkia' yn y National Federation of Poultry Clubs, Stafford, sef y sioe fwyaf ym Mhrydain. Daeth gwobrau eraill i'w rhan gyda bridiau eraill o icir hefyd a dyma'r sioe fwyaf llwyddiannus iddynt oll. Pob dymuniad da eto i'r dyfodol.

Mam falch tu hwnt yw Barbara Brailsford, 11 Bryn Eglwys, wedi i'w mab, David Brailsford, Cyfarwyddwr Perfformio y Tîm Beicio Prydeinig buddugoliaethus,

dderbyn y C.B.E. Mae eisoes wedi derbyn yr M.B.E. Llongyfarchiadau mawr a phob lwc i David yn Llundain yn 2012.

Gyda balchder y llongyfarchwn Bencampwr cyntaf Mastermind Cymru, sef Dafydd Mercedydd, Dafydd Du. Wedi'i fagu yn Llanrug ond sydd â'i rieni, Arwel a Carys, yn byw yn Cae Eboni, mae'n hoff o ddod adref pob cyfle a gaiff. Llongyfarchiadau calonog i ti, Dafydd. Rydym yn hynod falch o'th lwyddiant.

Hogia Ni, Hogia Ysgol Tan y Coed a'r Ysgol Gymuned yw Brigyn, sef Ynyr ac Eurig. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch am aros ar y brig gyda'r gân hudolus, 'Halcliwia' gan Leonard Cohen a'r geiriau Cymraeg gan Tony Llywelyn. Yn sicr bydd y gân hon ar y brig am sawl blwyddyn i ddod.

TAI CYNGOR GWYNEDD

Yn fuan bydd gofyn i holl denantiaid Gwynedd bleidleisio ar drosglwyddo'r holl stoc tai i ddwylo cwmni preifat neu eu cadw mewn perchnogaeth gyhoeddus. Cartrefi Cymunedol Gwynedd fydd enw'r cwmni arfaethedig hwn a bydd yn gorff na fydd yn gwneud elw ac fe fydd yn atebol i Lywodraeth y Cynulliad.

Pam fod angen preifateiddio? Yn syml, er mwyn codi digon o arian i ddod a'r stoc tai i safon derbynol.

Gosododd Llywodraeth y Cynulliad darged sylfaenol i bob cyngor yng Nghymru i godi safon eu tai erbyn 2012. Mae'r Cyngor yn fyr o rhwng £31.45 miliwn a £82.78 miliwn i wneud y gwaith angenrheidiol. Ar ôl edrych ar y gwahanol opsiynau penderfynwyd mai preifateiddio oedd yr unig opsiwn realistig. Roedd pob opsiwn arall yn gadael y Cyngor yn fyr o filiynau.

Pwysleisir y bydd buddiannau'r tenantiaid yn cael eu gwarchod os bydd y trosglwyddo yn digwydd.

Os gwrthodir y cynnig hwn yn y bleidlais, yna bydd y Cyngor yn gorfod cadw'r stoc o 6500 o dai sydd yn ei eiddo. Bydd y tai hyn wedyn yn parhau yn union fel y maent ar hyn o bryd. Mae hyn oherwydd na allant fforddio i'w gwella. O ganlyniad i hynny, bydd y Cyngor yn methu cyrraedd y targed ddisgwyliar ar gyfer safon y tai. Bydd unrhyw

welliannau flynyddoedd yn ddiweddarach yn cael eu gweithredu.

Mae wyth awdurdod wedi trosglwyddo yn barod ac mae chwech arall yn pleidleisio eleni. Mae saith awdurdod am gadw eu stoc tai a pheidio mynd i bleidlais ac mae dwy ardal wedi pleidleisio yn erbyn trosglwyddo.

Cynrychiolydd lleol ar y Comisiwn Tenantiaid Gwynedd ydy Alan Parry 19 Pentre Helen Deiniolen. Os ydych am wneud unrhyw sylw neu am fwy o wybodaeth cysylltwch ag o. Ar Ionawr 29ain am 7 o'r gloch, cynhelir cyfarfod yn Nhy Elidir, Deiniolen gyda'r Cyngh. Len Jones a Ffrancon Williams o Gyngor Sir Gwynedd.

Cewch fwy o wybodaeth gan y Comisiwn Tenantiaid Gwynedd ar y rhif 01286 889121 neu rhadffon 0800 0194 004

Yn ystod y dydd, mae Alan Parry yn helpu'r plant i groesi'r ffordd wrth Ysgol Gwaun Gynfi Deiniolen. Yna gyda'r nos, mae Alan yn weithgar iawn yn cyflwyno ceisiadau i gleifion ar Radio Ysbyty Gwynedd, a hynny ers 2002. Mae'r gwaith gwirfoddol hwn yn cael ei werthfawrogi'n fawr ac yn codi calon llawer un sy'n orweddog am gyfnod. Os hoffech chwi gael gyflwyno cais i un o'r teulu neu ffrind, ffoniwch Ysbyty Gwynedd (01248 83844789) ar ôl 7.30 ar nos Wener a gofynnwch am Alan.



I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

**33 Stryd Fawr
PORTHAETHWY**

Ffôn: (01248) 714043

neu **Caernarfon**

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Darren Jones

Contractiwr Teilsio

**CEGINAU
YSTAFELLOEDD
YMOLCHI
A LLORIAU**

**9 Rhos Rug
Llanrug Caernarfon**

**(01286) 669090
Mobile-07894818783**

John Ellis Williams 1922-2008 Llenor a Herwheliwr (Potsiar)



Ar y 7fed o Ragfyr, bu farw John Ellis Williams, Y Gors, Allt Riwth, Llanrug yn 84 mlwydd oed. Yn ddi-os dyma un o ysgrifennwyr mwyaf toreithiog Cymru yn ail hanner yr ugeinfed ganrif. A hynny yn y ddwy iaith. Rhwng 1959 a 2001 cyhoeddodd bymtheg o lyfrau, yn amrywio o straeon plant i nofelau oedolion ac o straeon ac ysgrifau ffeithlen a ffuglen i fywgraffiadau a hunangofiant. Cyhoeddodd dri llyfr i blant – *Elwd y Teiliwr Bach* (1966); *Chwedlau Sion ac Eleri* (1992) ac *Owen The Goat of Snowdon* (1981). Cyhoeddodd wyth nofel Gymraeg i oedolion – *Bryndu Mawr*, *Cadair Eisteddfod y Glasgoed* 1959; *Hadau Gwyllt* (1968), *Modd i Fyw* (1970), *Yr Ynys Wydr* (1969), *Gwynt i Oen* (1976), *Paul Jones a'r Tywysog* (1975), *Wrth Ddychwel* (1982) a *Nes Adref* (1996). Mac llawysgrifau'r nofelau hyn ar gael yn y Saesneg, ond heb eu cyhoeddi eto.

Cydnabyddir ei straeon ffeithlen a ffuglen a'i fywgraffiad Saesneg yn glasuron erbyn hyn. Cyhoeddwyd *Straeon y Cyfar Main* yn 1985. Cymharodd y diweddar Dafydd Orwig y straeon hyn i *Straeon yr Henllys Fawr*, *Straeon Wil Ifan*, *Ifan y Tryc* a chyfresi Harri Parri. Yn 1985 fe'u darlledwyd fel drama gyfres ar BBC Radio Cymru. Cyhoeddodd hefyd *Dychweliad y Deryn Mawr* (1990) a *Rare Welsh Bits* (2001). Ymddangosodd ei glasur Saesneg *Clouds of Time* yn 1989, ond yn wreiddiol fe'u 'sgrifennwyd fel cyfres o straeon Cymraeg yn y cylchgrawn *Pais*. Troswyd hwy i'r Saesneg a'u darlledu ar BBC Radio 4, BBC Radio Wales a'u cyhoeddi yn y cylchgrawn *Countryman*. Yn wir, cyfrannodd dros 200 o straeon byrion i'r *Countryman*, *Country Quest* ac, wrth gwrs, *Eco'r Wyddfa*.

Ganwyd John yn Llan Isa, Llanddeiniolen ond fe'i magwyd ar ffermdy Y Gors, Llanddeiniolen, yn fab i Jane a Joseph Williams. Roedd Ellis Williams y Gaucho Cymraeg yn cwythr iddo. Cyfrannodd John yn helaeth i'r rhaglen afaelgar a

ddangoswyd ar S4C Nadolig 2006, a gyflwynwyd gan Bryn Fôn ar hanes ei fywyd cythryblus.

Addysgwyd John yn Ysgol Ramadeg Brynrefail lle y disgleiriodd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Oherwydd y rhyfel nid aeth i'r coleg. Yn hytrach ymunodd â'r Llu Awyr fel cyfeiriwr (*navigator*). Ar derfyn y rhyfel aeth i chwilio am waith o le i le, a gwneud hynny yn null trempyn! Yn wir, aeth i drampio gyda'i biser bach draw am Lincoln a'r Fforest Newydd gan gysgu weithiau dan y lloer, dro arall mewn hostelau wedi eu neilltuo i grwydriad. Setlodd i lawr am ysbaid yn ardal Worcester ac aeth Joan, ei gariad ysgol, yno ato a phriodwyd y ddau. Gweithiodd mewn ffatrioedd a swyddfeydd ac fel garddwr. Ond yn amlwg roedd teithio yn rheidrydd bron i John. Teithiodd Joan ac yntau ar gefn moto beic drwy Ffrainc, Sbaen a Phortiwgal gan ddilyn taith George Borrow.

Ar daith arall mewn Robin Reliant, aeth y ddau am Sbaen unwaith yn rhagor gan fyw mewn ogofâu am gyfnod gyda Sipsiwn Andalusia ger Granada!

Gan fod peth o waith John wedi ei gyfieithu i wahanol ieithoedd daeth yn gyfarwydd â rhai o lenorion Ewrop ac America. Ymhlith ei ffrindiau yr oedd y llenor fyd adnabyddus, Simone de Beauvoir. Bu'n llythyru'n gyson â hi ac fe aeth i'w gweld i Paris.

Ar ôl cyfnodau yn byw ym Metws y Coed, Llandrillo yn Rhos (lle ganwyd eu mab Siôn ym mis Mai 1968) a Swydd Sussex, dychwelodd John, Joan a Siôn i fyw yn eu milltir sgwâr.

Gŵr ei filltir sgwâr yn y bôn oedd John, er iddo 'grwydro am ocs lle mynno ei hun'. Cyn ei waeledd blin mynych y gwelwyd y ddau yn cerdded llwybrau'r hen gyncfin gan aros yma a thraw am sgwrs. Gw^r anghonfensiynol ydoedd gan edrych ar fywyd o bersectif gwahanol i'r rhelyw. Dyna pam ei fod yn gwmni da a'i sgwrsio mor ddifyr. Dyn y cyrion oedd y llenor, yn cilio oddi wrth ffws, ffwdan a ffuantrwydd. 'Chrafodd o din neb', medda fo, er mwyn codi ci statws yn y byd llenyddol. Toedd o ddim yn ddyn 'sefydliadau' er iddo gael ei anrhydeddu gan adran Saesneg yr Academi a'i dderbyn (yn llawer rhy hwyr) i Orsedd y Beirdd fel Ofydd o dan yr enw 'Fy Machgen Gwyn'.

Yn ei angladd yn yr Amlogfa ym Mangor, arweiniwyd y gwasanaeth gan Y Canon Idris Thomas a thalodd deyrnged i'r gŵr unigryw a'r llenor hynod. Darllenwyd cerddi o ddewis John ei hun gan Susan Clack ac Arwel Jones. Cyflwynwyd y ddau englyn â ganlyn gan ei

ffrind a'i gymydog, Dyfan Roberts.

Eryr y llwm wylltiroedd – a rannai
O rin hen deuluoedd.
O'r Gors doi ei chwedlau ar goedd,
Hen Wydion y Waun ydoedd.

Ei ryddid gai, foreddydd – yn
erwau
Helwriaeth y coedydd;
Llên straegar y cyfar cudd.
Heno mae'r pin yn llonydd.
ARWEL JONES

John Ellis Williams

(*Braslun o deyrnged y Canon Idris Thomas i John Ellis Williams, Y Gors, Llanrug, yn ei angladd yn Amlogfa Bangor, 12 Rhagfyr 2008.*)

Yn dawel ar ei aelwyd y bu farw John ag yntau yn wyth a phedwar ugain oed a hynny ar ôl cystudd hir. Fel ei holl lyfrau, roedd bywyd John hefyd ar ei hyd yn llyfr diddorol, amrywiol, creadigol, rhyfeddol a lliwgar. Y mae cymeriad felly yn aml yn cyfoethogi bywyd gan nad yw yn cyfaddawdu i unrhyw rigol gaeth, sidet a deddfol.

Y tro cyntaf erioed i mi weld John oedd bron i hanner can mlynedd yn ôl. Fel llefnyn ar lethrau yr Elidir yr oeddwn yn byw a bod yn nhŷ Joan, ei briod, yn Ninorwig sef Bron Eilian, yn helpu ei thad, Thomas Rees Edwards, un o fugeiliaid defaid gorau yr ucheldir. Oherwydd yr eira, roedd fy nhad adref o'r chwarel a bu John ac yntau yn torri coed gerllaw Bron Eilian y diwrnod hwnnw.

Bore Oes, Ysgol ac Ysfa i Deithio

Ymfalchiai John mai hogyn a chynnyrch Plwyf Llanddeiniolen ydoedd. Yn Awst 1924 y'i ganed ar aelwyd Llanisaf wrth ymyl Eglwys Llanddeiniolen. Roedd ei dad wedi ailbriodi ar ôl colli ei wraig gyntaf yn America a dychwelyd i Gymru efo mab ifanc, sef Arfon. Ei dad, gyda llaw, oedd un o'r rhai cyntaf hco car yn yr ardal; un o deulu Gors, Llanddeiniolen, ydoedd sef teulu o ffermwyr. O'r un plwyf oedd ei fam a magwyd John ar fferm Gors. Addysgwyd ef yn Ysgol Tan y Coed, Penisarwaun, ac Ysgol Ramadeg Brynrefail, lle disgleiriodd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Meddylwyd efallai amdano y pryd hynny fel 'dipyn o bry' fel y dywedir sef yn wahanol, yn ccsentrig ac ar wahân.

Ar ôl dyddiau ysgol gwirfoddolodd i'r Llu Awyr a bu'n llywiwr. Wedi'r rhyfel teithiodd John y Gororau yng nghwmni sipsiwn yn chwilio am waith. Setlodd yn y diwedd yng Nghacrwangon, lle bu'n gweithio mewn amryw o swyddi am gyfnod. Yn ystod ei gyfnod yma anfonodd am Joan i ymuno ag ef a dyna lle y priododd nhw ar Fawrth 25, 1950. Symudodd y

ddau wedyn i ardal Betws y Coed lle gweithiodd John i'r Comisiwn Coedwigaeth. Yn ystod gaeaf 1959 a 1960, daeth yr ysfa i deithio yn ôl i wythiennau John a cododd ei bac yn llythrennol a mynd ar ei foto beic a'i heglu i deithio o gwmpas y Pentir Iberaidd gan fyw efo sipsiwn mewn ogofâu ger Granada.

Yn ôl yng Nghymru ymgartrefodd John a Joan yn ardal Bac Colwyn lle gweithiai John fel garddwr. Ganed Siôn yn 1968 ac yn fuan wedyn symudodd y teulu o Gymru i Orllewin Sussex lle roedd John yn cyfuno ei waith fel garddwr a gyrrwr.

Cynnyrch Llenyddol a'r Bersonoliaeth Liwgar

Aruthrol, a dweud y lleiaf, oedd cyfraniad llenyddol John; yr oedd ganddo ddawn gynhenid o lenyddia a hynny yn rhwydd iawn yn y ddwy iaith. Roedd yn awdur nofelau, straeon byrion, straeon i blant, straeon ffeithiol a ffuglen, bywgraffiadau a hunangofiant a nifer fawr o erthyglau i gylchgronau, heb anghofio ei lythyrau crafog a gogleisiol.

Ymddangosodd ei straeon ffeithiol a'i straeon byrion yn lleol yn *Eco'r Wyddfa* ac yn ehangach mewn cylchgronau fel *Country Quest* a'r *Countryman*. Adroddwyd ei storïau ar y radio a gwelwyd rhai ohonynt ar deledu a hynny eto yn y ddwy iaith a mwy, yma yng Nghymru, Prydain a rhai gwledydd yn Ewrop. Yn ystod Nadolig 2007 gwelsom y ffilm-ddrama lwyddiannus a seiliwyd ar hanes ewythr i John, sef Ellis Williams, a fu'n Gaucho ym Mhatagonia ac yn arwr ym myddin yr Awstraliaid yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd John yn brif ymgynghorydd ar y ffilm-ddrama honno.

Roedd yn beiriant llenyddol prysur, yn feistr yn sicr ar ddweud stori. Perthynai iddo feddwl anhygoel yn llawn dychymyg a rhoddai ar dudalennau llyfr straeon cofiadwy yn llawn miri.

Derbyniwyd ef i Orsedd y Beirdd yn ei Gw^yl Genedlaethol am ei gyfraniad sylweddol i faes llên yng Nghymru ac etholwyd ef i'r Academi Gymreig am ei gyfraniad i lenyddiaeth Cymru yn Saesneg.

Roedd gan John bob amser lawer o jôcs a straeon difyr a byddai wrth ei fodd yn eu hadrodd. Dyn ei filltir sgwâr ydoedd ond yn meddu ar wybodaeth cang a thrylwyr ar nifer o bynciau. Ei aelwyd a chwmni Joan a Siôn oedd y canolbwynt iddo a bydd aelwyd Y Gors yn hynod dawel hebddo a'i bresenoldeb lliwgar. Coffa da amdano.

Y CANON IDRIS THOMAS

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (01286) 872133

DYMUNA Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa, ddiolch o galon i holl staff Ward Padarn, Ysbyty Eryri, Caernarfon, am eu caredigrwydd tuag ati. Diolch hefyd i staff yr Adran Ffysiotherapi, yn arbennig felly Dr Orley a Dr Hill, a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Dymuna Beryl ddiolch o galon hefyd i'w holl deulu ffeind tu hwnt ac i'w ffrindiau i gyd yn Eglwysy Penisarwaun a Llandinorwig, sydd yn cadw mor ffyddlon. Diolch am yr holl anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd dros y Nadolig.

DYMUNA Mrs Eileen Jones, 3 Y Bwthyn, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniwyd ar ôl ei anhwylder diweddar, tra roedd yn Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Eryri ac ar ôl dychwelyd adref.

DYMUNA Ffion a Keith, Rhiw Goch, Clwt y Bont ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardia, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab, Tryfan Gwynedd, ym mis Hydref.

YSGOL SUL UNDEBOL

Cafwyd parti hwyliog gydag ymweliad gan Siôn Corn a mwynhawyd y cyfan yn fawr gan y plant.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Mrs Margaret Owen, Stephen a Sandra, Rhydfadog, yn eu profedigaeth o golli gŵr a thad yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd â Gwynedd Williams a Mrs Marian Morris a'r teulu yn eu profedigaeth o golli eu tad yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r diweddar Gwilym Roberts, Weirglodd Goch, Penisarwaun yn eu profedigaeth ddiweddar.

GWELLHAD BUAN. Anfonwn ein dymuniadau gorau am

adferiad iechyd buan i bawb fu'n wael neu'n derbyn triniaeth ysbyty yn ddiweddar.

YSGOL FEITHRIN DEINIOLEN

A yw eich plentyn yn 3 oed rhwng mis Medi 2009 ac Awst 2010? A yw eich plentyn am fynychu'r Cylch Meithrin? Dewch i gofrestru dydd Gwener, 6 neu 13 Chwefror rhwng 11.30 a 1.00 o'r gloch.

Manylion pellach ar gael gan yr Arweinydd: Gwyneth Jones ar (07969635944)

EGLWYS CRIST LLANDINORWIG. I ddechrau dathlu'r Nadolig, cafwyd eleni eto Gyngerdd Blynnyddol, gyda Jennie Lyn yn cyflwyno Seindorf Arian Deiniolen, ynghyd â llu o dalentau lleol oedd wedi ennill yn Eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol, ynghyd â grwp 'Harmoni' o Borthmadog. Noson i'w chofio ac a fwynhawyd gan bawb oedd yno. Llywydd y noson oedd Mrs Theta Owen, Mynydd Llandegai. Diolchwyd i'r rhai a gymerodd ran ac i drefnwyr y noson ac i bawb a gefnogodd y cyngerdd gan y Parchedig Robert Townsend.

Y Sul canlynol, tro plant Ysgol Sul Eglwys Crist oedd cyflwyno Hanes y Geni inni. O'r lleiaf i'r mwyaf, cymerodd pob un ei ran o ddifrif. Diolch iddynt ac i'w rhieni ac i athrawon yr Ysgol Sul am eu hymroddiad.

Y Sul cyn y Nadolig, cafwyd Gwasanaeth gan y Parchedig Robert Townsend. Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Parchedig John Pritchard, a oedd yn methu bod yn bresennol. Darllenwyd a chyflwynwyd Emynau gan gynrychiolwyr o wahanol elgwysy a chapel, ynghyd â'r Ysgol Sul Undebol ac Eglwys Crist.

Mae'n amlwg bod talentau o safon yn bodoli ym mro'r Eco. Diolch am yr holl weithgarwch.

DINORWIG

Miss Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

BLWYDDYN NEWYDD DDA. Ar ddechrau blwyddyn 2009 dymunwn anfon cyfarchion y flwyddyn newydd i holl drigolion y pentref, ac i'r rhai sydd mor anffodus â bod yn gorfod byw mewn cartrefi preswyl. Gobeithio am flwyddyn well i'r rhai na chafodd flwyddyn rhy dda y llynedd. Felly, Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

MARWOLAETH.

Brawychwyd yr ardal ychydig ddyddiau cyn y Nadolig pan glywsom y newydd trist am farwolaeth Douglas Harrington Parminter yn Ysbyty Gwynedd yn 76 mlwydd oed. Un o blant yr ardal oedd Douglas, wedi ei eni a'i fagu hefo'i dad a'i fam yn y Llythyrdy. Fferyllydd oedd wrth ei alwedigaeth ac fe fu'n Fferyllydd hefo Boots am beth amser cyn agor ei fusnes ei hun yng Nghaergybi. Roedd ganddo ddau o blant, David a Susan. Yr ydym yn anfon ein cydymdeimlad llwyrat at y ddau a'u teuluoedd yn eu profedigaeth a'u galar. Fe roddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent Ynys Wen, Y Fali. **PROFEDIGAETH.** Yr ydym fel ardal yn anfon ein cydymdeimlad llwyrat at Mrs Joan Rhys Williams, (Joan Rees Edwards, Bron Eilian, gynt) a Siôn, y mab, yn eu colled o golli gŵr a thad, sef y diweddar erbyn hyn, John Ellis Williams, Y Gors, Llanrug. Bu farw ar 7 Rhagfyr yn 84 mlwydd oed. Yr oedd y gwasanaeth yn Amlogfa Bangor ar 12 Rhagfyr dan arweiniad y Canon Idris Thomas.

CAR GWYLLT

Sawl un ohonoch tybed a wŷr beth oedd car gwyllt, neu hyd yn oed wedi gweld un? Fe welech res ohonynt yn mynd yn y bore a dychwelyd o Chwarel Dinorwig gyda'r nos tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Rhai yn mynd i Gwm y Glo, Pen Llyn, Ystablau, Pontrhythallt, Pensarn, Bethel, Gwyndy a darfod yn Penscoins. Gallai'r ceir hyn gario rhwng 15 a 25 neu ragor o chwarelwyr.

Perchnogion y ceir oedd y chwarelwyr eu hunain ac roedd gan bob car ei enw. Ysgrifennodd Ap Glaslyn gân gan enwi 47 o'r ceir. Dyma eu

henwau: Signor Foli, Meredydd, Llew, Stanley, Express, Menai, Caradog, Garibaldi, Eryr, Y Pry Llwyd, Y Gaseg, Yr Ebol, Vivian, George, Gladstone, Wyddfa, Madog, Fox, Ashton, Albert, Y Falwoden Lwyd, Gwefr, Stag, Nelson, Picton, Samson, Jenny Bach, Hobley, Snowden, Victoria, Yr Hen Foulkes, Dinorwic, Timbol, Y Marquis, Tom King, Peris, Siân, Smith, Vaynol, Cacwn Prins Llywelyn, Pandora, Bright a Blondin.

Roedd y ceir gwyllt yma yn anodd iawn i'w gyrru pan oedd yn wynt mawr ac hefyd yn bethau peryg. Câl rhai eu gyrru gyda thraed ac eraill gyda bôn braich. Nid oedd to arnynt felly byddai'r chwarelwyr yn chwys diferol neu yn wlyb fel pysgod. Byddai pob chwarelwr yn gorfod talu am ei bas, o 1/3 i 2/6 y mis, sef tua 8c i 12c yn arian heddiw.

Roedd angen i bob car fod yn y chwarel hanner awr cyn caniad, ac ni chaent gychwyn adref am hanner awr wedi i'r diwrnod gwaith ddod i ben ac yna cymerent tua tri chwarter awr i gyrraedd Penscoins.

Fel y gallwch ddychmygu roedd llawer o ddamweiniau yn digwydd ar y ceir gwyllt yma. Yn aml iawn byddai'r brec yn methu ac yn rhedeg i gefn y car o'u blaenau a hefyd coesau ambell un yn mynd yn sownd. Y car cicio oedd y perycla i fynd arno. Ond roedd damweiniau mwy difrifol yn digwydd yn aml iawn - un tro fe aeth car ar ei ben i'r llyn a boddwyd dau o Lanrug. Hefyd byddai damweiniau'n digwydd wrth i rai ddisgyn neu lithro oddi ar y car. Rhaid cofio bod y car gwyllt ym medru mynd ar dros 40 milltir yr awr os oedd pawb yn tynnu eu pwysau.

Ond, yn 1895, fe gychwynnodd y trên chwarel ddod o Penscoins i'r Gilfach Ddu ac fe ddaeth oes y car gwyllt i ben. Ond cyn hynny buont yn cario chwarelwyr Dinorwig am dros drigain mlynedd.

R. ELWYN GRIFFITH

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon
54 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO



Plant Ysgol Sul Undebol

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

MUDIADAU ELUSENNOL

Gan bod y Cyngor yn cyfrannu at fwy a mwy o fudiadau'n flynyddol, penderfynwyd gofyn am ateb, gyda cheisiadau Medi 2009, i'r cwestiwn:

'At ba bwrpas y defnyddir cyfraniad y Cyngor?'

* * *
Cyfarfu'r Cyngor ar y 6ed o Ionawr. Darllenwyd y weddi safonol i ddechrau'r cyfarfod.

Croesawyd Mr Hywel Williams AS a'i wahodd i agor trafodaeth. Dywedodd Mr Williams ei fod yn ymweld â phob Cyngor Cymuned yn ei etholaeth, er gwaetha'r anhawster o ddyddiadau cyfleus. Dywedodd ei fod am fanylu ar dri phwynt, sef Swyddfa'r Post, Ad-drefnu'r Awdurdod Iechyd a Safle Ferodo. Dyma grynodedd bras o'i gyflwyniad:

1. Swyddfeydd Post. Caewyd pob swyddfa a oedd ar y rhestr yn ei etholaeth. Pe bai wedi llwyddo i arbed un ohonynt byddai un arall wedi ei chau yn ei lle. Dywedodd bod perygl i'r gwasanaeth cludo llythyrâu gael ei breifateiddio a'i rannu. Mae'n dadlau yn erbyn hynny yn Llundain ac yn ceisio sicrhau na fydd prisiau postio yn codi yng ngefn gwlad.

2. Awdurdod Iechyd. Bwriedir sefydlu un awdurdod dros ogledd Cymru, mac 22ain yng Nghymru ar hyn o bryd. Buasai'r newid yn golygu llai o hwyllgorau, llai o Brif Weithredwyr ac arbedion eraill. Mac HW yn pwysu'n galed i gael Pencadlys yr awdurdod newydd ym Mangor. Gellid wedyn gysylltu'r Awdurdod â'r Brifysgol ac Ysbyty Gwynedd. Trefn a fuasai'n codi statws y Brifysgol a'r Ysbyty. Pan ddaw hyn i fodolaeth bydd Awdurdod Iechyd y Gogledd gyda'r mwyaf yn Ewrop. Gobeithir hefyd am Gadeirydd Cymraeg.

3. Safle Ferodo. Eglurodd Mr Williams yr hoffai weld diwydiannau bychain yno neu ryw beth yn hytrach na charchar, ond prin bod hynny'n bosibl. Mae 500 o garcharorion o Gymru yng ngharchardai Lloegr. Cwmni preifat fel 'Group 4' fuasai yn ci rddcg, ac mae ganddynt record dda - 5 a ddihangodd y llynedd, a hynny o ysbyty neu lys. Categoriâu llai peryglus fuasai yno. Buasai swyddi yno a chyfle i deuluoedd aros yn yr ardal. Mae'r ffaith bod llys newydd ar fin ei gwblhau yng Nghaernarfon yn arf arall i sefydlu'r carchar. Dylai fod o fantais i'r dre. Y

rheol yw bod carcharorion ifanc i fod o fewn 50 milltir i'w cartref, mae rhai o Gymru, ar hyn o bryd, gannoedd o filltiroedd i ffwrdd.

Cyfeiriodd Elspeth Mitcheson at y diffyg Band Llydan yn Rhiwlas ac atebodd Mr Williams ei fod wedi trafod hyn gyda BT ac addawodd drefnu cyfarfod eto.

Gwnaeth Len Jones dri pwynt:

1. Afon Goch, Deiniolen. Dywedodd Mr Williams ei fod wedi holi Dr Phill White, Gwynedd, yngly'n â hyn. Pwysleisiodd Len Jones ar gael newid y ddeddf sy'n caniatáu sefydliad o'r fath, heb ganiatâd cynllunio na thrwydded.

2. Toiled, Deiniolen. Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio arbed arian trwy leihau gwasanaethau angenrheidiol ond yn parhau i wario fel arall.

3. Tai Cyngor. Mae'r Cyngor Sir yn dal i dalu 1/3 o bres rhent yn ôl i San Steffan.

Addawodd Mr Williams gymryd y pwyntiau yma i fyny. Diolchodd Miss Phyllis Ellis i'r Aelod am ei gyflwyniad a'i ymweliad â'r Cyngor.

Cofnodion cyfarfod Rhagfyr Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Cyfeiriodd Len Jones at baragraff 4 - a'i fod yn cysylltu â Dafydd Einion Jones yngly'n â hanes yr ardal gan bod Gareth Roberts mor brysur. Ffensus llechi. Darllenwyd ateb CADW a rhybuddiodd Philip Jones y gallai eu cynnal gostio'n ddrud i berchnogion tir. Gan bod Cadw angen lluniau ohonynt, penderfynwyd i'r aelodau dynnu lluniau o'r rhai sydd yn eu hetholaethau. Yn y cyfnewid, gofyn i CADW pwy sy'n cyllido cynnal a chadw ffensus Mynydd Llandygai.

Derbyniwyd ateb Gwynedd eu bod yn trefnu glanhau safle ailgylchu Rhiwlas a'i wneud yn llai, fel ymgais i atal yr holl lanast, hefyd cludo'r Fridge/Freezer o Lôn Garet, Dinorwig. Ateb Gwynedd mai y Bwrdd Nwy sy'n gyfrifol am osod y cytundeb i Insiwleiddio Tai. Cywirodd Len Jones hyn gan ddweud bod y gwaith hwnnw ar y cyd rhwng Gwynedd a'r Bwrdd Nwy. Penderfynwyd ysgrifennu eto i Wynedd gan bod y gweithwyr yn teithio'n ddyddiol o Gaer.

Toiled Deiniolen. Mae Cyngor Gwynedd wedi monitro'r toiled a dod i ganlyniad nad oes digon o ddefnydd i'w gadw ar agor. Trafodwyd unwaith yn rhagor y

posibilrwydd o'i fabwysiadu oddi wrth Gyngor Gwynedd neu rannu'r gost. Ystyriwyd praesept y Cyngor mewn cysylltiad â hyn. Cynigodd Len Jones godi'r praespt o 10 ceiniog ar y dreth a chymryd y toiled drosodd ond ni chafodd gefnogaeth.

Gohebiaethau eraill

Llwybrau i ysgolion.

Cyflwynwyd cynlluniau gwella'r llwybrau i ysgolion Gwaun Gynfi, Deiniolen, a Rhiwlas. Penderfynwyd gofyn pam na wneir llwybr o ysgol Gwaun Gynfi i gyfeiriad Pen y Golwg. Pam mae diogelwch plant o un cyfeiriad yn bwysicach na diogelwch plant o'r cyfeiriad arall. Cafwyd addewid am hyn gan y Prifathro beth amser yn ôl.

Gofynnodd Pat Jones beth yw'r sefyllfa yngly'n â'r cais am balmant o Trem Eilian i gyfeiriad ysgol Cwm y Glo - llythyr i Wynedd.

Fron Olau a Ty Mawr Cottages. Derbyniwyd addewid Gwynedd i symud yr 'horseboxes' sydd wrth ochr y ffordd o flaen y tai yma.

Rhoddion i fudiadau.

Trafodwyd y drefn bresennol o ariannu pob cais a dderbynnir. Pwysleiswyd bod y rhan fwyaf o'r mudiadau yn allweddol i'r gymdeithas. Awgrymwyd gofyn i'r mudiadau at ba bwrpas y defnyddir cyfraniad y Cyngor ac a oes ganddynt rhyw weithgaredd mewn golwg. Penderfynwyd ar hysbyseb yn Eco'r Wyddfa: 'At ba bwrpas y defnyddir cyfraniad y Cyngor'. Dywedodd Pat Jones nad oes lle cyfarfod ym Mrynrefail i ennyn gwaith cymdeithasol.

Cynllunio

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Gorsaf Beran: codi to'r adeilad presennol a chodi estyniad

deulawr yn y cefn i gynnwys storfa a swyddfa. Amlygwyd anfodlonrwydd o hyn gan bod annedd yn lle'r hen adeilad ger Buarth y Beran i frodor a'i deulu a anwyd yn yr ardal wedi ei wrthod, a chaniatau hyn i fewnfudwyr!

Waen Rhythallt: cais ôl-weithredol ar gyfer gwaredu gwastraff.

1, Ty'n Clwt, Bethel: newidiadau ac estyniad.

Rhos yr Wylfa, Nant y Garth: estyniad.

Tir ger Penrallt, Clwt y Bont: adeiladu ty a mynedfa newydd.

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Tu cefn i Bro Rhiwen, Rhiwlas: adeiladu ty a gwelliannau i'r fynedfa

3, Carfan, Pentir: newidiadau ac estyniad.

Llwybrau

Dywedodd Huw P. Hughes bod angen glanhau ac atgyweirio llwybr 112: Ty'n Llidiart / Tan yr Wylfa, Seion, Llanddeiniolen. Mae'r perchennog tir (Ty'n Llidiart) yn barod i gydweithio. Penderfynwyd, hefyd atgoffa Gwynedd o'r canlynnol:

1. Dw'r difrifol ar lwybr 93 o Rhos Wian i'r Waun, Penisa'rwaun.

2. Llwybr Sinc, Deiniolen, nid yw'r gwaith atgyweirio yno wedi ei gwblhau

3. Nid yw'r gwaith draenio ar lwybr Carreg y Gath, Rhiwlas wedi ei gwblhau.

Cyfeiriwyd at fwriad Gwynedd i ddiddymu'r camfeydd ar lwybrau oherwydd anhawsterau i'r anabl. Pryd y gwneir hyn?

Torri coed a gordyfiant

• Llwybr 113, Bryn Pistyll i Seion, Llanddeiniolen,

• Llwybr 42, heibio'r Hen Ficerdy, Deiniolen.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 3ydd o Chwefror.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pŵn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org

01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban Cyf

Dylunio / Design
Cyfryngau / Media
Arddangosfeydd / Exhibitions
Safweoedd / Websites



cread

gwasanaeth dylunio / cyfryngau
design / media service

t - 01248 713437
m - 07867 976183
e - post@creadcyf.co.uk
w - www.creadcyf.co.uk



CYTUNO ...OND

Daeth y llythyr tra roeddwn yn yr UDA. Diolch i Gwilym am ei ddanfôn, ac mae yn codi hen bwynt digon dilys. Yn wir, rydw i'n cytuno a safbwynt Gwilym, a buaswn yn falch pe buaswn yn gallu gwireddu ei ddymuniad. Rwyf yn ymwybodol mai un o brif ddyletswyddau papur bro yw bod yn groncl o gyfnod hanes lleol. I'r perwyl hynny rwy'n ceisio adlewyrchu yr ystod eang o gampau sy'n britho'r ardal. Wedi 25 o flynyddoedd anodd yw ceisio bod yn ffres - neu weddol ffres-bob mis. Dyna pam rwy'n cynnwys sylwadau ar faterion byd y campau yng Nghymru hefyd. Nid wyf am weld y golofn yn mynd yn restr o 'ganlyniadau y mis'. Yn amlwg rwy'n ceisio mynegi barn a cheisio cael adwaith. Y mae dadl yn ran anatod o fyd y campau.

Ond mae Gwilym hefyd wedi amlygu pwynt rwyf wedi ei godi droeon.

GOLYGYDD chwaraeon yw fy swydd. Yn anffodus, amharod iawn yw'r clybiau, cymdeithasau i ddanfôn stwff ataf. Efallai mai'r disgwyl yw i mi fynd i wrando, gwylio, etc. Mae'n apêl oesol. Buaswn yn meddwl y buasai'r clybiau yn falch o unrhyw gyhoeddusrwydd. Yn sicr maent yn cysylltu pan mae eisiau dangos llun o Kit newydd yn cael ei gyflwyno. Dangos yw rhywbeth felly nid trafod. Beth amdani, unwaith eto glybiau'r fro. Beth am roi dipyn o waith i mi. Sylwch fod tudalen gefn y Caernarfon a Denbigh ers wythnosau yn dudalen o rygbi.

Ydy'r bel-droed yn edwino? Cysylltwch i mi gael cadw Gwilym a llawer fel o sydd a'r fro yn eu gwythienau yn hapus. Diolch iddo am ymateb.

PWYSIG PWYSIG PWYSIG

I bawb sydd am anfon newyddion, deunydd, storïau, erthyglau ac yn y blaen ar gyfer rhifyn Mawrth 2009.

Bydd angen anfon newyddion i law gohebydd pentref erbyn nos Sul Cwefror 15fed. Os am ei anfon drwy ebost i Alwena rhaid iddo gyrraedd erbyn bore Mawrth yr 17eg. Cyfeiriad ebost Alwena ydy -

alwenaowen@gmail.com

Os yn anfon drwy ebost, wnewch chi anfon unrhyw luniau fel ffeiliau llun (JPEG gan amlaf) ac nid fel lluniau mewn dogfen brosesydd geiriau fel Word. Felly anfon y lluniau'n unigol ac yna anfon y testun ar wahân.

Hefyd, cewch anfon deunydd erbyn dydd Sul Chwefror 15fed i Gavin Saynor, Penarth, Stryd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4BA

RHAID i'r holl ddeunydd fod i law Alwena erbyn dydd Mawrth. Ni fydd unrhyw ddeunydd a dderbynnir wedi'r dyddiad hwn yn cael ei gynnwys!

PEIDIWCH ac anfon unrhyw ddeunydd i Wasg Gwynedd nac i Wasg Dwyfor.

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR
6 a.m.-7.30 p.m.
(Llun-Sadwrn)
6 a.m.-3 p.m. (Sul)

Tegid a Samantha Pritchard CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR


Ffôn/Ffacs:
(01286) 650291

Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc -
allwch chi fforddio prynu o batrymau?

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn

Ar Gau
Sul a Mercher



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG
Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089 • 01286 830996

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA



www.fframio.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframio.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

CHWARAEON

YR ARDD LEDRITHIOL

Dros y blynyddoedd rwyf wedi llunio erthyglau am ac o rai o ganolfannau chwaraeon enwocaf Ewrop. Yr wythnos ddiwethaf roeddwn yn cael fy nhywys o gwmpas 'prif arena chwaraeon y byd', chwedl y tywysydd - y lledrithiol Madison Square Garden yn Efrog Newydd. Profiad anhygoel oedd cerdded o gwmpas y fangre ble y daeth Joe Calzaghe yn wir bencampwr byd ychydig wythnosau yn ôl. Yma y daeth y Cymro sy'n ymarfer mewn cwt bach yn Nhrecelyn. Yma y chwifiodd y Ddraig Goch yn fuddugoliaethus. Arena yn wir ystyr y gair yw hi. Yma daw gwir bencampwyr y campau. Dyma'r llwybr i anfarwoldeb.

Hon yw'r drydedd Ardd. Adeilad awyr agored a gynlluniwyd yn 1890 oedd y gyntaf. Denwyd y miloedd yno at y gemau Americanaidd, y nofio awyr agored, a sioeau anhygoel Barnum a Bailey, a syrcau Buffalo Bill.

Yna, symudwyd i'r ail adeilad caeedig, ac yma yr adeiladwyd ar y cysylltiad â bocsio, yn enwedig pencampwriaeth pwysau trwm y byd. Yma y daeth y cewri i gyd, Jack Dempsey, Rocky Marciano, Gene Tunney, Sugar Ray Robinson... I ni yng Nghymru, wrth gwrs, y frwydr anhygoel rhwng Tommy Farr a Joe Louis a'i diwedd glo dadleuol sy'n aros yn y cof. Gallwn ail fyw profiad Selwyn Griffith yn ei bryddest yn cronicle'r miloedd gartref yn gwrando ar y sylwebaeth wichlyd ar y di-wifr yn oriau mân y bore. Trueni nad oedd technoleg heddiw ar gael i gadw'r ciliad yn fyw yn y cof.

Pr drydedd Ardd yr es i. Adeilad deg llawr uwchben gorsaf rheilffordd Penn St., ar draws y ffordd i siop fwyaf y byd, Macys. Deg llawr ond dim ond pedwar a ddefnyddir. Ar y ddau lawr isaf, derbynfa a hanes yr arena mewn darluniau a phlaciau. Yr Haarlem Globetrotters, John McEnroe ifanc, Sinatra, Presley, Martin Luther King. Ac, wrth gwrs, y bocswyr. Y llun o 'ffeit y ganrif' o Fawrth 1971 gyda Joe Frazier yn adennill y teitl wrth guro yr unigryw Ali.

Ar y nawfed llawr mac theatr yn dal 12,000 ble cynhelir cyngherddau, sioeau a dramâu. Yma yr ymddangosodd pob un o'r Beatles fel unigolion ond crïoed fel grwp. Cynhaliwyd eu cyngerdd enwog yn Shay Stadium.

Yna y degfed llawr. Dyma'r fangre sancteiddiolaf, dyma Theatr y Breuddwydion. Arena anhygoel yn dal 28,000. Yma bu Joe. Roedd ein tywysydd yno ar y noson. 'A true champion', oedd ei ymateb i fy nghwestiwn amlwg. Cael eistedd yn un o'r 12 sedd yn y 'crach flychau' yn hofran uwch yr arena. Saith ffigwr yn bendant yw'r gost o logi un o'r blychau ar gytundeb tair blynedd.

Heddiw ceir yma sawl cystadleuaeth tenis, reslo a phencampwriaeth bocsio amatwr America, yr hen Golden Gloves. Gwir y teitl gan i nifer o'r enillwyr ennill arian mawr yn y gamp. Ysywaeth bu nifer hefyd yn afradus o'u talent a'u llwyddiant.

Ar ochr yr arena mae dwy grair hanesyddol. Yn gyntaf yw tîws enfawr sy'n nodi enw pob un a enillodd bencampwriaeth pwysau trwm y byd yn y tair Gardd. Mae'r enwau mawr arni. Wrth ei hochr y glorian a ddefnyddiwyd ar gyfer y 'pwyso' ym mhob un o'r gornestau. Rhaid oedd cael llun, a dychryn fy mod yn pwyso mwy na nifer o'r mawrion. Tipyn o waith i'w wneud ar ôl dod adref!

Roedd un peth yn amlwg o wrando ar y tywysydd. Er y bocsio a'r campau eraill, teml i'r chwaraeon Americanaidd - pêl-fasged a hoci iâ - yw'r Ardd. Dyma gartref y ddau dim pêl-fasged y Knicks (dynion) a'r Liberty (merched). Aethpwyd â ni i'r 'locker rooms'. Dyma'r nefoedd i Americanwr ifanc - ei Stadiwm y Mileniwm! Trwy'r drws tal - dros 7 troedfedd - a chydio yn esgid James, prif seren y tîm cyfredol. Ie, esgid maint 21!

Yna ystafell newid y tim hoci iâ - y New York Rangers. Tîm â dipyn o bedigri, wedi ennill Pencampwriaeth y Byd ddwy waith. Yno mae locer wag, locer yr anfarwol Wayne Gretzky, prif sgoriwr y Gynghrair erioed. Saif tywel unig i ddynodi'r fangre. Mae ei offer yn amgueddfa 'Hall of Fame' y gamp ym Montreal. Ble tybed mae esgidiau Barry John neu John Charles ys gwn i.

Ie, mangre arbennig yw'r Ardd. Ar y diwrnod yr oeddem yno roedd yr arena yn cael ei pharatoi ar gyfer gŵyl dau ddiwrnod o farchogaeth teirw - y rodco traddodiadol. Wrth gerdded allan gallwn ddychmygu y Tommy Farr dewr mor bell o gartref a llef y cannoedd o Gymru a heidiodd yma cyn y Nadolig i lafar ganu a dathlu... Joe, Joe... Calzaghe!

Gêm Fawr yr Ŵyl



Tim mamau Llanrug a fu'n cystadlu yn erbyn merched Llanberis dros wyliau'r Nadolig. Roedd yr elw tuag at elusennau lleol.

A OES ATEB I'R GOHIRIADAU?

Mae hi'n oer ofnadwy draw yma yn yr UDA a gwaeth i ddod. Yr un fath gartref gyda llu o gemau pêl-droed lleol wedi eu gohirio.

Rwyf wedi cadw cysylltiad drwy y we ac wedi sylwi fod nifer o gemau proffesiynol wedi eu gohirio. (Fe wnes sylwi ar ddau ganlyniad, sef 0-0 a 3-0) Rwy'n siwr ei bod hi'n ddiddorol yn y Bedol!

Mae cur pen yn gwynebu'r trefnwyr. Mae'n siwr, - gyda rhai yn darogan gaeafau oerach yn norm yn y dyfodol - y daw'r galw am dymor yr haf, neu ohiriad ganol tymor fel yn Ewrop.

A oes modd ymateb i hyn. Yn sicr mae gormod o gemau cwpan rhwng y gynghrair, rhanbarth a chenedlaethol. Rai blynyddoedd yn ôl sefydlwyd y drefn pyramid gan y Welsh FA. Y syniad oedd i'r clybiau ddarganfod eu gwir lefel o chwarae. Y prif linyn mesur, ar wahân i gyfleusterau, oedd safle terfynol yn y gynghrair. Yn anffodus, cafwyd enghreifftiau ble nad oedd y timau gorau yn llwyddo i esgyn a hynny ar drael pwysau annerbyniol y nifer o gemau ddiwedd tymor. Hefyd y 'free week' chwerthinllyd ar gyfnodau braf y tymor. Annheg yw disgwyl i chwaraewyr gwmpasu cymaint o gemau tyngedfennol i gyfnod byr ar feysydd calcd, anwastad. Ceir y gemau sgôr criced gyda thimau a dim i chwarae amdano a fawr o awch.

Beth am y syniad canlynol ar gyfer y cynghreiriaid lleol - Arfon, Môn, a Gwynedd. Oherwydd gorfodaeth i gystadlu yn y Junior a Chwpanau'r Gynghrair, chwarae dwy rownd gyntaf y cwpanau ym mis Awst. Gwybod felly yn y Cwpan

Cynghrair pwy sydd yn y rownd gyn-derfynol, ac yn 16 olaf yn y Junior. Yna dechrau'r gemau cynghrair ym mis Medi, a dim ond gemau cynghrair ar y Sadwrn. Wythnos 1, wythnos 2, pawb wedi chwarae yr un nifer o gemau. Darlun cliriach o gryfder/gwendid y timau. Yna dim gemau cynghrair ym mis Ionawr, dim ond gemau cwpan. Ail ddechrau'r gemau cynghrair ym mis Chwefror, a phawb eto yn chwarae yr un adeg. Digon o Sadyrnau i chwarae y 30 gêm gynghrair. Yn y ffordd yma os daw gaeaf caled dim ond nifer fechan o gemau cwpan fydd i'w haildrefnu. Llai o ran rhif yn amlwg, a cham gwirioneddol i ddarganfod y gwir bencampwyr ddiwedd y tymor.

SYLW LLEOL?

Gwyrfai, Pentrafa Cr., Llandrindod, Powys

I sylw'r Golygydd Chwaraeon

Annwyl Mr. Jones

Blwyddyn Newydd Dda a diolch am eich cyfraniadau ar hyd 2008. Roeddwn yn siarad a'm cefnder ym Birmingham y dydd o'r blaen ac roedd y ddau ohonnom yn teimlo y buasai mwy o hanes timau pêl-droed y pentrefi yn foddhaol iawn. Oes rhywun i ddod o'r fro i wneud marc cenedlaethol fel Malcom Allen neu 'Jiws'?

Mac'r BBC ac S4C yn cyfyngu ar chwaraeon o'r gogledd, ac rydym yn syrffedu ar y sylw a'r sylwebu diben-draw o gyfeiriad yr Ospreys a'r Scarlets.

Rwyn credu mai da o beth fyddai i'r Eco hefyd gyfyngu ei sylwadau i chwaraeon yr ardal er diddordeb i'r ardalydd a'r rhai ohonnom sydd yn byw i ffwrdd.

Yn gywir, Gwilym Ellis.

(ymateb ar dudalen 21)